# tafod elái

NADOLIG 1987 | Pris 20c | RHIF 23


## Safiad Cadarn

A'r **Tafod** ar fin mynd i'w wely, mae'r helynt ynglŷn â'r disgybl o Lanhari y mae ei rhieni yn mynnu iddi'r hawl i sefyll un o'i phynciau lefel A trwy gyfrwng y Saesneg yn dal heb ei ddatrys. Mae'r achos eisoes wedi cael gormod o hysbysrwydd, ond ni fyddai **Tafod Elai** yn wynebu ei gyfrifoldeb fel papur bro heb ei fod yn datgan ei gefnogaeth lwyr i brifathro a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Llanhari yn eu safiad ar y mater hwn.

Dim ond wedi blynyddoedd o ymgyrchu a brwydro yr enillwyd yr hawl i rieni ddewis addysg drwy cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae gan rhieni yr un hawl i ddewis addysg trwy gyfrwng y Saesneg iddynt. Yr hyn nad oes ganddynt hawl i'w wneud yw mynnu bod ysgol Gymraeg yn newid ei pholisi leithyddol i gyd-fynd â'u mympwyon nhw.

Ydyn, mae gwersiyfrau ac adnoddau eraill yn y Gymraeg dal yn gymharol brin, yn enwedig ar gyfer cyrsiau lefel A, ac mae'n naturiol bod hyn yn poeni rhieni, yn enwedig rhieni di-Gymraeg o bosibl. Mae angen dwyn pwysau'n barhaus ar y Swyddfa Gymreig i ddarparu rhagor o adnoddau i'r asiantaethau sy'n cynhyrchu'r gwersiyfrau a'r adnoddau hynny, a phwyso hefyd am i athrawon blaengar gael eu rhyddhau o'u swyddi am gyfnodau er mwyn cynhyrchu a chyfieithu defnyddiau. Os bydd yr achos hwn yn dangos i'r Swyddfa Gymreig mor annigonol yw'r darpariaeth ar hyn o bryd, efallai na fydd ei effeithiau yn ddrwg i gyd.

## Gwyl Ddrama Lwyddiannus

Yn fuddugol yn Ail Ŵyl Ddrama Tafod Elai eleni roedd Cwmni Theatr Gymraeg Clwb y Bont yn cyflwyno 'Cybydd Tavellsium'. Rhoddwyd y gwpan am y ddrama a blesiodd y beirniad orau i Gwmni Un-nos yn perfformio 'Y Ddraenen Fach' gan Gwenlyn Parry. Enillwyd y gystadleuaeth i Ysgolion Cyfun gan Ysgol Rhydfelen gyda'i chyflwyniad o 'Ian'.

Roedd safon uchel lawn i'r dramau a berfformiwyd yn yr Ŵyl yn ôl y beirniad Huw Ceredig. Bu'n amser prysur lawn i'r wyth cwmni oedd yn cymeryd rhan a chafwyd cynulleidfaoedd teilwng lawn ar y dair noson.

Eleni roedd dwy gystadleuaeth - un i Ysgolion Cyfun ac un i Oedolion. Cafwyd cyflwyniadau ardderchog gan Ysgolion Gyfun Glantaf, Cwm Rhymni a Rhydfelen ond roedd y beirniad wedi ei siomi am nad oedd Ysgol Gyfun Llanhari wedi cyflwyno drama.

Cafwyd pum drama yn y gystadleuaeth i oedolion gan dri chwmni o ddalgylch Taf-Elai a dau o Glwb Ifor Bach, Caerdydd.

Roedd trefniadau'r Ŵyl unwaith eto eleni dan ofal Colin Williams a bu cydweithrediad rhagorol rhwng pawb a fu'n cynorthwyo.

## RHIFYN DWBWL ENFAWR!

Gwyddau i'r Nadolig...3

Addysg 16 - 19.....7

Portread y Mis.....11

O'r Ŵyl Ddrama....13-16

Ffau'r Plant.....18

Atgofion Prifathro...23

*Nadolig Llawen*

# 1987 — 1988

Sut flwyddyn gawsoch chi eleni? Oedd hi'n flwyddyn lewyrchus? Gawsoch chi hwyl?

I rai mae'n siwr mai blwyddyn yr etholiadau oedd hi. I eraill, blwyddyn y diarfogi. Oes modd gwella'r diwelthdra?

Yn ôl tudalennau'r **Tafod** roedd hi'n flwyddyn o ledaenu'r laith Gymraeg yn yr ardal. Agor dwy ysgol gynradd newydd. Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus ym Merthyr yn esgor ar un arall yn Llantrisant. Dosbarthiadau dysgu Cymraeg diri. Cystadleuaeth Gwyl Ddewi lewyrchus i'r plant ac All Ŵyl Ddrama ardderchog. Cystadlu ar 'Bwrlwm Bro'. Trydydd Medal Aur yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Capeli Cymraeg yr ardal yn ffynnu a'n Clwb Cymraeg yn fan cyfarfod dymunol.

Ond nid amser i eistedd 'nol a mwynhau y llwyddiant yw hi. Mae'r laith o dan fygythiad o hyd ac mae angen llawer mwy o Gymry'r ardal i gymeryd at y baich o gynnal y gweithgaraeddau. Yn rhy ami yr un gwynebau a welir yn rhedeg Adran yr Urdd, y Gymdeithas Rieni, y Gymdeithas Gymraeg, yr Ysgol Feithrin, y Papur Bro, y Capel ac yn y blaen.

Bydd Eisteddfod yr Urdd yn Llantrisant yn rhoi cyfle i nifer o bobl ychwanegol ysgwyddo'r baich o gynnal yr laith. Mae angen dybryd i chwilio am ffordd i gadw cysylltiad a phobl ifanc sydd wedi gadael ein hysgolion cyfun. Rhaid ehangu'r gweithgareddau yn yr laith Gymraeg i bob maes.

Ewch ati. Dros Gymru.

Blwyddyn Newydd Dda

# PWY YW PWY?

GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Glenys Roberts Llantrisant 228196
ERTHYGLAU
Anna Jones Pontypridd 404697
CHWARAEON
Geraint Hughes Llantrisant 224743
LLUNIAU
David Penny Jones
Pontypridd 408623
DOSBARTHU
Rhys Llewelyn N'tn Llan 207077
TRYSORYDD
Ann Dilys Jones Pentyrch 892239
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979
HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353
YSGRIFENNYDD
Gill Rees Pentyrch 890571
PWYLLGOR
Emlyn Davies Pentyrch 891344
Mererid Morris Llantrisant 223525
D.J. Davies Tonyrefail 671327
Rhodri Jones Pentyrch 890039
TÎm Y PORTREAD
Ann Dwynwen Davies
Nan Griffiths
Gwenfil Thomas

Cyhoeddir Tafod Elai gan y Bwrdd Golygyddol gyda chefnogaeth ariannol Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig. Argraffwyd gan Gwmni Three Arch Press

**NADOLIG LLAWEN I'N DARLLENWYR**

# COEDEN NADOLIG SAIN FFAGAN

Bydd goleuo Coeden Nadolig, 45 troedfedd, o flaen Amgueddfa Werin Cymru, Nos Fawrth, 15 Rhagfyr, 1987 am 7.30 o'r gloch, yn ddigwyddiad nodedig i ddathliadau'r Nadolig y noson honno.

Bydd y goeden yn ganolbwynt i lu o weithgareddau ac arferion y Nadolig fydd yn digwydd o gwmpas yr adeiladau yn yr Amgueddfa Werin, gan ddechrau gyda chroeso twym-galon gwin cynnes a mins peis i bawb. Bydd y Fari Lwyd yno i "ofyn am gennad i ganu", ynghyd â dawnswyr Cwmni Dawns Werin Caerdydd; Sion Corn wrth y tân yn ffermdy Kennixton yn dosbarthu triog, a chyfle i brynu losin (neu da-da) wedi eu gwneud yn arbennig mewn dull traddodiadol ar gyfer yr achlysur.

Bydd y tai wedi'u haddurno ag addurniadau traddodiadol y Nadolig ac wrth y tân yn un o fythynnod Rhyd-y-car cewch wrando ar storiwr (Mallt Anderson) yn adrodd storiau gwerin. Bydd cyfle wrth gwrs i bawb ymnuno i ganu carolau yng Nghapel Pen-rhiw.

Yng nghyntedd yr Amgueddfa bydd dwy arddangosfa - un yn arbennig ar y Nadolig a'r llall ar Sampleri.

Bydd holl ddarpariaethau'r Amgueddfa ar agor y noson honno hefyd. Er y bydd yr Amgueddfa wedi ei goleuo gyda thrydan a chanhwyllau, a'i chynhesu gyda thanau ymhob adeilad, bydd yn ddoeth dod â golau fflach a dillad cynnes. Does dim dwywaith amdani, bydd hon yn noson i'w chofio.

Pris mynediad £2.00 i oedolion a £1.00 i blant.

Annwyl Syr,
Ar gyfer Y Goeden Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ar Rhagfyr 15, byddwn yn addurno rhai o'r tai yn yr Angueddfa. A gawn ni apelio ar i'r darllenwyr sy'n berchen neu sy'n gwybod am hen addurniadau Nadolig o'r 1950au, 1920au neu'r 1890au o unrhyw fath adael i mi wybod gan y buaswn yn falch iawn o fedru eu defnyddio ar yr achlysur hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Tecwyn Vaughan Jones
Amgueddfa Werin Cymru
Ffon: 0222 569441

Y Fari Lwyd yn Llangynwyd Tua 1908.

# YR WYDD A'R 'JAC POPI'

Erbyn hyn rwy'n siwr fod y rhan fwyaf ohonom sy'n byw yn nalgylch ein papur bro ym Morgannwg Ganol wedi archebu twrci ar gyfer ein cinio Nadolig. Dyna yw'r patrwm cyffredin yng Nghymru gyfan, beilach, ond os trown ni'r cloc yn ôl ryw drigain mlyneddd fe welwn ni ddarlun gwahanol. Hyd y bo modd, gŵydd fyddai'r aderyn a ymddangosai ar fwrdd cinio Nadolig teuluoedd y ffermwr a'r glowr fel ei gilydd. Gwyddom fod gwyddau wedi cael eu magu yng Nghymru ers yr Oesoedd Canol cynnar a'u bod y gysylltiedig â'r Nadolig yma ers y bymthegfed ganrif. Tra 'roedd yr uchelwr yn mwynhau cig paun neu alarch yr adeg hwnnw 'roedd y ffermwr yn bodloni ar gig gŵydd a'r bobl llai cefnog yn mwynhau cig aderyn o ryw fath. Erbyn y ganrif ddiwetha' roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yng Nghymru yn bwyta cig gwydd neu gyw iar ar ddydd Nadolig, ac os na allent fforddio'r naill na'r llall byddent yn rhostio darn o gig eidion neu borc. Aderyn estron a ddaeth o America i fyrddau'r gŵyr mawr yn Lloegr yw'r twrci, ac erbyn y ddeunawfed ganrif 'roedd y ffermwyr yno yn ei fwyta i'w cinio Nadolig hwy.

Gwyddom fod gwyddau yn adar hawdd i'w magu, treulient lawer o'u hamser yn pori a lloffa ar y caeau ŷd ac nid oedd angen gofal arbennig iawn arnynt. Wrth gwrs, rhaid cofio eu bod yn werthfawr iawn i wraig y tŷ a hynny nid o safbwynt y cig yn unig. Byddent yn dibynnu ar y plu' i wneud gwelâu a chlustogau esmwyth ac 'roedd rhinwedd meddyginiaethol bwysig i'r saim a llifai allan ohonynt wrth eu coginio. Pwy sy'n cofio am gael saim gŵydd ar ddarn o wlanen i leddfu anhwylder ar y frest? Mewn un ardal arbennig yng Nghymru byddid hyd yn oed yn defnyddio gwaed y gwyddau fel sail i gacen arbennig yn dwyn yr enw cacen gwaed gwyddau!

Ond i ddychwelyd at y cinio Nadolig, 'roedd rhostio'r wydd ar fore Nadolig ym Morgannwg gynt yn ddefod go arbennig. Fel rheol roedd y gorchwyl tra phwysig yn nwylo neb llai na gŵr y tŷ! Ef fyddai â gofal yr wydd a roid i hongian ar declyn priodol i'w rhostio o flaen tan agored. Jac popi oedd yr enw arno gan frodorion Morgannwg.



Ymddangosodd y teclyn hwn, y bottle Jack, am y tro cynta' ddechrau'r ganrif ddiwetha', ond 'roedd yn dal mewn bri mewn cartrefi ym Morgannwg tan dridegau'r ganrif hon. Erbyn hynny, fodd bynnag, rhostio'r ŵydd ar fore Nadolig oedd ei unig swyddogaeth. Fe welwch o'r llun mai teclyn crwn ar ffurf potel ydoedd. Gan amlaf fe'i gwnaed o bres ac fe'i rhoid i hongian o flaen y tan wrth fachyn mawr pres a leolid o dan y sliff ben-tân-uchel. Tu mewn iddo 'roedd peirianwaith tebyg i du mewn cloc ac 'roedd allwedd briodol i'w weindio. Byddai'r ŵydd yn hongian wrth fachyn o'r olwyn o dan y jac, a honno'n troi'n araf yn-ôl-a-blaen gan rostio'r cig yn gyson o flaen tan-llwyth o dân. Fel y soniais, gŵr y tŷ fyddain'n cadw golwg ar y jac a'i weindio fel bo'r angen. Ef hefyd fyddai'n bastio'r ŵydd â'r saim a llifai allan ohoni i ddysgl neu ddwiper odani. Cymerai ryw ddwy neu dair awr i'w rhostio'n drwyadl.

Yn ôl a glywais gan rai o'r brodorion hyna', 'roedd yn arfer gan deuluoedd Morgannwg i wahodd eu ffrindiau i'r tŷ tua un-ar-ddeg o'r gloch ar fore Nadolig i fwynhau byr-bryd bach cynnes cyn cinio. Byddent yn mwydo darnau o fara ffres mewn ychydig o'r saim cynnes oedd yn y ddysgl o dan yr ŵydd, a hwnnw'n llawn nodd a daioni. Yna, ei olchi i lawr a gwin cartre', neu ddiod fain, o bosib. Tamaid i aros pryd, yn wir.

Erbyn heddiw rydym wedi cyfnewid y jac popi am ein ffwrn meicro-don ac ati, ac mae'r twrci wedi disodli'r ŵydd. Newid er gwell? Fe gewch chi ateb.

I gloi ar nodyn ymarferol, beth am fynd ati i wneud ychydig o gyflaith ar gyfer y Nadolig eleni gan ddilyn rysait a gefais gan wraig oedd yn frodor o Bentyrch. Ei henw hi oedd taffi a ffani.

Y defnyddiau

pwys o siwgr coch
llond dwy lwy de o finegr
olew mintys
llond cwpan mawr o dŵr oer
talp o fenyn

Rhoi'r defnyddiau (ac eithrio'r olew) mewn sosban, eu troi'n gyson a'u berwi'n ofalus am ryw bymtheg munud. Codi ychydig o'r cymysgedd a'i roi mewn dŵr oer i'w brofi. Os bydd yn caledu ar unwaith, mae'n barod i'w dynnu. Iro bwrdd llechen (neu unrhyw arwynebedd sy'n gwrthsefyll gwres) â thalp da o fenyn ac arllwys y rhan fwyaf o'r cymysgedd arno. Cadw rhyw gymaint yn weddill yn y sosban mewn lle cynnes, a'i rwystro rhag caledu. Iro'r dwylo'n dda â menyn ac yna gafael yn y taffi poeth a'i dynnu'n rhaffau melyn gan ychwanegu ychydig o olew mintys wrth wneud hynny. Parhau i dynnu nes fod gennych daffi o liw hufen golau. Yna ei osod ar y bwrdd yn stribedi hir, gwastad tua modfedd o led ac arllwys y gweddill o liw tywyll (sy'n dal yn y sosban) yn llinell denau ar ganol pob stribed. Eu torri'n ddarnau bach cyn iddynt galedu.

Pob hwyl, a gwyliwch rhag llosgi'ch dwylo! Nadolig Llawen.

S Minwel Tibbott
Is-Geidwad
Adran Adeiladau a Bywyd Cartref
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
CAERDYDD CF5 6XB

# GYMANFA HWYLIOG

Ar Nos Sul, Tachwedd 1af, cynhaliwyd Gymanfa Ganu 'Tafod Elai' yng Nghapel Sardis, Pontypridd.

Arweiniwyd y Gymanfa gan Mr Wil Morus Jones, a chafwyd dwy eitem gan Côr Godre'r Garth yn ystod y noson. Er mai cynulleidfa fechan ddaeth allan i'r Gymanfa roedd yn noson hwyliog dros ben gyda chanu grymus ac ysbrydoledig. Cymerwyd rhannau arweiniol y Gymanfa gan Rhodri Francis a'r Parch John Davies a chafwyd cyfeiliio pendant a sicr gan Mr Idwal Adams yr Organydd.

Gwahoddwyd un o ddiaconiaid Sardis sef Mrs Hilary Lewis i Lywyddu'r Gymanfa. Magwyd Mrs Lewis ym Mhontypridd ar adeg pan nad oedd y Gymraeg yn ffynnu a bu'n rhaid iddi ddysgu'r iaith ar ôl cyfnod coleg. Dyma fyrdwn ei haraith.

"Braint i mi yw cael y gwahoddiad i fod yn llywydd ar achlysur mor hapus, dymunol a phleserus.

Gofynnwyd i mi sôn am hanes yr achos yma yn Sardis fel bwrdwn fy araith. Ac felly ar Sul y Seintiau, ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn yn yr Hen Galendr Cymreig gweddus yw rhoi braslun hanes y seintiau yma ym Mhontypridd ac fel y paratoisant le i ni addoli yma heddiw.

Dechreuwyd addoli yn y flwyddyn 1806 mewn amaethdy Gwernygerwn ger Trefforest. Heddiw, dyna lle lleolir Pontypridd Electric Generating Station.

Da cofio bod coed yn llanw'r cwm yn y cyfnod hwnnw. Dywedwyd bod gwiwer yn gallu teithio o Gaerdydd ar hyd y dyffryn heb gyffwrdd a'r ddaear - ond pam y byddai gwiwer eisiau teithio yr holl ffordd o Gaerdydd i fyny'r dyffryn - dyna gwestiwn arall!

Erbyn 1809 roedd y Saint yn cyfarfod mewn goruwch ystafell yn y White Horse - Malsters Arms heddiw. Yr oedd yr ardal honno yn hollol Gymreig ac ysgrifennodd un teithiwr ei fod yn sefyll yn stond, mewn rhyfeddod wrth glywed merch fach ar Heol y Berw wrth yr Afon Tâf yn siarad a chwarae yn Saesneg.

Deng mlynedd yn ddiweddarach symudwyd i dŷ ar ochr y dramffordd gyferbyn â'r capel presennol ac yn 1834 adeiladwyd y capel cyntaf ar safle'r capel presennol, a galwyd ef yn Sardis.

Wedi gwasanaeth gan nifer o weinidogion rhoddwyd galwad i Henry Oliver yn 1850. Yr oedd yn bregethwr "huodl a nerthol", nes gorlenwi'r capel. Ehangwyd y capel yn 1852 ac ar Dachwedd 15ed a 16ed 1852 cynhaliwyd Cyfarfodydd yr Allagoriad.

Yn y flwyddyn 1881 sefydlwyd achos Annibynol Saesneg ym Mhontypridd a llawer yn gadael Sardis.

Saif Sardis heddiw fel yr unig gapel lle cynhelir y gwasanaethau yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dref.

Ceir at hanner cant o blant i wasanaeth y bore a'r ysgol Sul a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhelir Ysgol Feithrin yn y Festri ers 1964 a mawr yw'r llwyddiant gyda dwy ysgol Gymraeg yn y dref. Digon teg i dref Hen Wlad Fy Nhadau!

I orffen, nodir fod gan bob cenedl ei hiaith, ei barddoniaeth, ei chanu - maent i gyd gennym - a bellach - papur bro - sydd yn ein tynnu at ein gilydd fel teulu. Bendith Duw fo ar y Gymanfa hon ac arnom ninnau i gyd".

Hoffai'r **Tafod** ddiolch i Swyddogion Capel Sardis am gael defnyddio eu capel ar gyfer y Gymanfa ac hefyd i Wil Morus Jones a'r Côr am wneud y noson yn un môr ddymunol.

Casglwyd £57 tuag at Gymorth Cristnogol ar derfyn y gwasanaeth.

# PEIDIWCH A DANTA DYMA 'MABSANTA'!

Newydd ddychwelyd ar ôl taith lwyddiannus tu hwnt yn yr Unol Daleithiau, mae 'Cenhadon Cadarnaf Canu Cymraeg' Mabsant yn mynd ar daith drwy Loegr, Iwerddon, a Chymru yn Nhachwedd a Rhagfyr eleni. Ar y daith yma byddant yn hybu eu record hir newydd Trwy'r Weir a llyfr newydd Robin Bowen (telynor y grŵp) Tro Llaw, llyfr o alawon dawnsio Cymreig.

Mae **Mabsant** yn cynnig rhaglen gyffrous ac anturus o gerddoriaeth hen a newydd Gymreig, sy'n ffiwsio gwahanol fathau o gerddoriaeth. Yn ogystal â'r Unol Daleithiau, maent wedi cael derbyniad brwd iawn mewn llawer iawn o lefydd amrywiol, gan gynnwys teledu a radio, dros Brydain i gyd, Ewrop, Affrica ac Asia.

Bydd Robin Bowen (telyn deires), Siwsann George (llais) a Stuart Brown yn ymuno ag Eiry Palfrey, actores, awdures, a seryddes o fri ar gyfer rhai o'r perfformiadau hyn. Bydd Eiry yn ychwanegu tropyn go lew o hwyl y Nadolig gyda darlleniadau gloyw o ddarnau dewisol. Pam nad ymunwch â nhw a Santa yn hwyl yr Ŵyl? Peidiwch a 'danta', dewch i 'Mabsanta'.

# FFYDDLONIAID COR GODRE'R GARTH

Beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn y côr enwog yma y dyddie hyn tybed? Wel, ddweda i un peth wrthoch chi - mae hi'n 'gyrtens' ar yr anffyddion! Waeth na dyddie ysgol - rhaid cyfiwyno esgus solet os am golli noson o ymarfer - dyna i chwi foi yw Brochel ap Crochan - mae'i ddyddiadur e'n rhy llawn o'r hanner - ond bydd yno'n y gystadleuaeth fawr yng Nghorwen - peidied neb â phoen!!

ENW: BROCHWEL AP CROCHAN / ADRAN BAS

| DYDDIAD 'REHERSAL | RHES | ABS | EGLURHAD AM FOD YN ABSENNOL |
|---|---|---|---|
| Sul Hyd. 11eg | | ✓ | CYRDDE MAWR YN GLANNAU'R |
| Mercher Hyd 14eg | | ✓ | WEDI'I SENSRO — bol. ! |
| Sul Hyd. 18fed | | ✓ | CHWILIO AM DDAEAR NEWYDD |
| Mercher Hyd 21ain | | ✓ | CYRDDE MAWR GLANDEKO |
| Sul Hyd. 25ain | | ✓ | PENBLWYDD HITLER |
| Sul Tach 1af | | ✓ | +CYMANFA (SARDIS) YMARFER HENOR L.S.O. |
| Mercher Tach 4ydd | | ✓ | ORJI |
| Sul Tach 8fed | | ✓ | CROESAWU DIRPRWYSIAETH O KUALA LUMPUR |
| Mercher Tach 11eg | | ✓ | BLINIO'R GATH |
| Sul Tach 15fed | | ✓ | DIWRNOD CENEDLAETHOL DIM CANU |
| Mercher Tach 18fed | | ✓ | RONALD REAGAN YN ANNERCH CENHADAON YMA/SIGL |
| Sul Tach 22ain | | ✓ | CHWARA CONCERS |
| Mercher Tach 25ain | | ✓ | SIMON RATTLE YN GAEL HEDDIW |
| CORWEN Tach 29 | ✓ | | RHODD AR HYN O BRYD!!!! |

Llwyth gyfiawn gyfiawn perthnasol

# GWYL GERDD DANT ABERHONDDU

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberhonddu. Bu sêr yr ardal yn disgleirio eleni eto.

Enillodd Menna Thomas y wobr gyntaf ar yr unawd alaw werin ac ail wobr ar yr unawd cerdd dant, gydag Ann Williams yn drydydd. Roedd gan Menna hefyd barti gwerin o Ysgol Rhydfelen a enillodd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth dan 19 oed. Menna, Ann ac Alwena Roberts gipiodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y triawdau a'r pedwarawdau cerdd dant gyda datganiad hyfryd o *Y Tymhorau*, Roger Jones ar y gainc *Moranedd* gan Mona Meirion.

Unawdydd y clywir mwy o sôn amdano'n sicr yn y dyfodol yw Rhodri Owain Francis a enillodd y drydedd wobr ar yr alaw werin o 12-16 oed. Hyfforddwyd Rhodri gan Dafydd Idris, a gellid gweld stamp y mishtir yn amlwg ar ei ganu.

Llwyddodd Côr Merched y Garth i ailadrodd eu buddugoliaeth ddwy flynedd yn ôl gan ennill y brif gystadleuaeth gyda datganiad o ddetholiad o awdl *Moliant Brycheiniog* (Vernon Jones) ar y gainc *Cloch Llanerfyl* (Dwynwen Jones). Mewn cystadleuaeth gref enillodd y merched o drwch blewyn, gyda Chôr Myfyrwyr Bangor yn dod yn ail a Chôr Pantycelyn yn drydydd.

Ann Williams, Alwenna Roberts a Menna Thomas
Llun: Arvid Parry Jones.

Parti Canu Gwerin Rhydfelen yn drydydd yn yr ŵyl. ⟶

Rhodri Francis

# IEITHOEDD LLEIAFRIFOL

Daeth dirprwyaeth o Fudiad Ieithoedd Lleiafrifol i ymweld a Chymru ym mis Tachwedd i astudio y gwaith a wneir i gynnal a lledaenu'r iaith Gymraeg. Yn ystod eu hymweliad bu'r cynrychiolwyr o Friesland, Catalonia, Iwerddon a gwlad Belg yn ymweld âg Ysgol Gymraeg Llantrisant.

Bu'r plant wrthi yn dangos eu llyfrau, eu hoffer a'u gwaith i'r ymwelwyr.

# MIL O ALWADAU??

Merch Mrs Llinos Lauder a'r diweddar Ceri Lauder o Ynysybwl yw Siriol Lauder ac y mae newydd ddechrau ar swydd newydd fel milfeddyg neu ffarier. Anfonodd beth o'i hanes i ni i'r papur bro.

"Ers pum mlynedd a phedwar mis bellach rwyf wedi bod yn allitud o Gymru. Yn gyntaf tra'n astudio yn y coleg ym Mryste ac yna ers pedwar mis yn gweithio fel milfeddyg yng Nghernyw. Mae'n braf felly cael y cyfle trwy gyfrwng **Tafod-Elai** i gyfarch hen ffrindiau ysgol ac athrawon a rhoi rhywfaint o fy hanes dros y blynyddoedd sydd wedi mynd heibio.

Bu anfeilliaid yn rhan bwysig iawn o fy mywyd erioed. Ers y dyddiau cynnar ar y fferm yn Ynysybwl roedd anghenion y defaid a'r ceffylau tipyn yn fwy pwysig na mathau eraill o adloniant. Yn ystod yr amser hyn roedd fy nhadcu yn ddylanwad mawr iawn ar fy mywyd, yn fy nhrwytho yn ffyrdd unigryw y wlad ac yn datgelu cyfrinachau megis sut i hyfforddi cŵn defaid a sut i berswadio dafad i fabwysiadu oen newydd ac yn y blaen.

Fy uchelgais yn y dyddiau hynny oedd i fod yn ffarmwr. Nid gwraig ffarmwr, ond ffarmwr. Hynny nes imi sylweddoli y byddai angen tipyn o arian i brynu'r math o fferm oedd gen i mewn golwg. Serch hynny, parhaodd y syniad yma nes imi gyrraedd Rhydfelen. Rwy'n cofio cael fy nherswadio i gymryd Lladin oherwydd bod "enwau'r gwrteithiau i gyd yn Lladin". 'Sgwn i pwy roddodd y cyngor gwerthfawr yna imi?

Aeddfedodd y syniad o ffarmio i un o hyfforddi i fod yn filfeddyg. Dwy' i ddim yn cofio'n union pryd y penderfynais mai dyna oeddwn am ei wneud. Mae'n debyg imi sôn am y peth mor gynner a safon tri ym Mhont-Sion-Norton. Ond rwy'n sicr o un peth... nid James Herriot a roddodd y syniad imi.

Wedi gwneud y penderfyniad doedd dim troi'n ôl. Dilynais y gwyddorau trwodd i'r chwecheds... yr unig ferch yn y dosbarth Cemeg... rhybudd cynnar fy mod yn troedio i fyd oedd yn draddodiadol yn perthyn i ddynion. Dwy' ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd petawn i wedi methu ag ennill mynediad i'r coleg. Mae'n bosibl y byddai Rhydfelen wedi gorfod fy nioddef am flwyddyn arall.

Ta beth, wedi saith mlynedd hapus iawn yn Rhydfelen i ffwrdd a fi i'r ysgol filfeddygol ym Mryste. Bu brwydr rhwng Prifysgolion Caerdydd a Bryste i sefydlu ysgol filfeddygol yn y 40au. Bryste a enillodd ac o ganlyniad does yr un lle i hyfforddi fel milfeddyg yng Nghymru.

Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen roeddwn yn cael fy nhynnu fwy fwy at ochr amaethyddol milfeddygaeth. Cefais brofiad gwerthfawr iawn mewn practis yn Llandysul. Y math o waith oedd i'w gael yn y fan honno oedd fy neilfryd pan adawais y coleg.

Rwy felly yn filfeddyg yn ffordd o fyw yn hytrach na swydd. Mae'r oriau'n hir gan fod rhaid inni gynnig gwasanaeth bedair awr ar hugain. Ond mae amrywiaethau yn y gwaith- gweithio yn yr awyr agored a gweithio gyda ffermwyr a phobl y wlad yn talu'n ôl am yr oriau hir. Does dim telmlad tebyg i dynnu llo byw a fyddai wedi marw heb eich ymdrech a'ch ymyrraeth chi... hyd yn oed os yw hi'n dri o'r gloch y bore, yn arllwys y glaw a chithau yng nghanol cae.

Wrth gwrs, dyw e ddim yn fêl i gyd. Dyw tynnu brych buwch yn syth ar ôl brecwast ddim at ddant pawb... fel y byddai Mam yn tystio ar ol dod mas i weld drosti'i hun sut mae'l merch yn ennill ei bywoliaeth.

Yn ei geiriau hi..."Roedd un bore'n ddigon." Ond dyna fe... pawb at beth y bo."

SIRIOL LAUDER

# DEWIS PRIFYSGOL

Fe ŵyr pob myfyriwr chweched dosbarth am fynych fantelsion colegau Bangor ac Aberystwyth. Bu eu hathrawon 'tlwn-gron' yn eu bwydo o'r fron gyda'r propaganda arferol ers dyddiau cyntaf yn yr ysgol gyfun. Nawr, does dim o'i le ar hynny medde chi, wedi'r cyfan, gan fod gennym ni golegau prifysgol yma, onid iawn yw i'r athrawon geisio cyfeirio'r llif blynyddol i'r ochr iawn o Glawdd Offa? Fodd bynnag, yr hyn sy'n fy mhoeni i fel myfyriwr yng Ngholeg Abertawe yw'r gor-hysbysebu a wneir o'r colegau hyn, a hynny ar draul colegau'r De.

Anami iawn y caf gyfle i hysbysebu fy Ngholeg i felly maddeuwch i mi am fantelsio am funud bach.

Yn groes i'r sibrydion a geir led-led 'stafelloedd athrawon Morgannwg ganol ceir rhywfaint o fywyd Cymraeg o gwmpas Abertawe! A wyddoch chi taw'r gymdeithas Gymraeg yw un o'r cymdeithasau cryfaf yn ein coleg? A wyddoch chi fod rhan o neuadd breswyl wedi ei neilltuo ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith? Yn y ddinas ei hun mae yna Gapeli, siopau, caffi a thafarn Gymraeg.

Yn ogystal â'r bwrlwm hwn o fywyd Cymreig mae gan Abertawe lawer iawn mwy i'w gynnig, megis adnoddau chwaraeon o'r radd uchaf, ac oddeutu cant o gymdeithasau amrywiol eu tueddiadau! Ond yn fwy na hyn i gyd, mae'r coleg yn le gwych i gyfarfod â phobl o bob rhan o'r byd, o bob math o gefndiroedd gwahanol iawn. Mae hi'n ystrydeb i ddweud fod bywyd prifysgol yn gyfle da i ehangu gorwelion ond mae'n ystrydeb sy'n digwydd bod yn wir.

I'r rheiny ohonoch sydd â'ch golygon ar fynd i goleg yn y dyfodol, yn gyntaf ga i ddymuno pob llwyddiant i chi, ac yn ail, gallaf eich sicrhau y bydd na groeso arbennig yn eich disgwyl yn Abertawe.

Gwion Rees.

# AWYR LAS

Cofiwch edrych ar y gyfres Awyr Las' sydd newydd ddechrau ar S4C. Stori am Iddewes ifanc o Wlad Pwyl sy'n cael ei herlid yw'r gyfres ac mae'n addasiad 12 pennod o hunangofiant Janina David, 'A Square of Sky'. Yn cynryd rhan Janina yn y gyfres mae Klain Haf o'r Groes-faen, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Ond chewch chi ddim gweld Klain ar y sgrin chwaith, gan mai cyfres wedi ei dybio yw 'Awyr Las'. Mae hi eisoes wedi cael ei dangos yn yr Almaen, Awstria, yr Iseldiroedd, y Ffindir, yr Eidal, De Affrica ac Awstria. Ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei dangos yn un o wledydd Prydain.

# ADDYSG POBL IFANC 16-19 MLWYDD OED

Mae'n siŵr fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr *Tafod-Elai* wedi cael darllen dogfen ymgynghorol Cyngor Sir Morgannwg Ganol 'The Education of Pupils 16-19 years old'. Gan hynny, nid oes diben ailadrodd ei chynnwys ond ceisiaf yn hytrach roi ymateb personol iddi gan gydnabod ar unwaith fod yr Awdurdod Addysg wedi datgan y broblem yn deg a bod y pwyntiau a nodir ynddi yn rhai cwbl ddilys.

Gan anwybyddu am y tro yr ystyriaethau economaidd sydd, ar y cyfan, wedi dod â'r broblem hon i'r wyneb, carwn drafod y prif ystyriaethau addysgol. Yn fy marn i, dyma'r rhai pwysicaf:

1. Gwerth dosbarth chwech mewn ysgol.

Mae'r ddogfen yn sôn am y budd a ddaw i ysgolion o'r arweiniad a roddir gan ddisgyblion hŷn ond nid yw'n rhoi digon o bwysau ar yr effaith gwbl andwyol y gall colli Dosbarth Chwech ei gael ar ysgol. Gall ysgol gymryd blynyddoedd lawer i ddod dros y colledion hyn:

O safbwynt y disgyblion
- colli arweiniad mewn gweithgareddau adloniadol, diwylliannol a chymdeithasol
- colli arweiniad o safbwynt siarad Cymraeg ac ymdeimlad o berthyn i sefydliad
- diffyg nod clir i ymgyrraedd ato (yn academaidd a chymdeithasol) o fewn yr un sefydliad

O safbwynt athrawon
- di-raddio statws athro sydd wedi arfer a dysgu Dosbarth Chwech
- effaith colli'r pleser o ddysgu Dosbarth Chwech ar *morale* yr athro
- anhawster denu athrawon gyda chymwysterau uchel i ddysgu mewn ysgol sydd heb Ddosbarth Chwech

Mae presenoldeb disgyblion hŷn yn gosod cywair yr ysgol yn ogystal a chreu awyrgylch mwy aeddfed. Os mai Dosbarth Chwech yw'r 'gem yn y goron', yna pam anddifadu ysgol o'r em honno? Dim ond ar lefel Dosbarth Chwech y mae ysgolion y wladwriaeth yn medru rhoi i'w disgyblion y manteision hynny y mae disgyblion yn eu cael mewn ysgolion bonedd.

Ni ellir gwadu nad yw disgyblion sy'n mynychu colegau trydyddol yn mwynhau rhai manteision (awyrgylch mwy aeddfed, dewis eang o gyrsiau) ond rhaid cofio eu bod yn gorfod wynebu rhai anfanteision hefyd (diffyg parhad - athrawon newydd sydd heb fod yn eu hadnabod etc; cael eu dysgu mewn grwpiau mawr).

A yw'r manteision a geir wrth sefydlu Colegau Trydyddol i bobl ifanc 16-19 mlwydd oed yn ddigon i wneud iawn dros yr anfanteision yn enwedig pan ystyrir yr effaith y mae eu sefydlu yn ei gael ar yr 11-16 mlwydd oed?

2. Yr angen mewn ysgolion am gyfnod o sefydlogrwydd

Mewn cyfnod pan fo'r Llywodraeth yn gorfodi Awdurdodau Lleol i gyflwyno cymaint o newidiadau yn myd addysg prin bod unrhyw newid pellach yn mynd i fod o fudd i'r disgyblion. Prin bod rhai ysgolion cyfun wedi cael chwarae teg i sefydlu'n iawn, ac eisoes maent yn gorfod wynebu newidiadau lu:

- arholiadau newydd, cytundebau athrawon, hyfforddi mewn swydd, adageiddio'r cwricwlwm, y cwricwlwm gorfodol, sefydlu Byrddau Rheoli newydd, rhoi mwy o hawl i ysgolion unigol reoli eu cyllideb, rhoi hawl i ysgol dynnu allan o'r system leol, etc. etc.

Credaf y bydd Addysg Gymraeg ar ei chryfaf os rhoddir yr un driniaeth i ysgolion Cymraeg ag a roddir i ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Sut felly mae sicrhau safle'r Gymraeg, a chadw dos- barthiadau chwech mewn ysgolion a rhoi cyfnod o sefydlogrwydd iddynt? Gellir gwneud hyn trwy sefydlu system o Golegau Cymunedol yn y sir drwyddi draw. Felly y ceid y lleiaf o rwyg yn yr ysgolion a sicrhau na fyddai'r ysgolion Cymraeg o dan anfantais.

Mae'n siwr y byddai'r ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn medru gwasanaethu eu cymunedau yn well na'r ysgolion Cymraeg ond gallent hwythau hefyd wneud cyfraniad i'r gymdeithas heb gyfaddawdu eu hawyrgylch Gymraeg na iaith eu gwersi.

Yn y newid y mae'n hanfodol sicrhau fod yr Awdurdod yn darparu addysg alwedigaethol cyfrwng Cymraeg o fewn ein sir. Prin iawn yw'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn ein Colegau Addysg Bellach ac y mae hynny, a'r gred gyffredinol y bydd yr Awdurdod yn sefydlu Colegau Trydyddol cyfrwng Saesneg, wedi arwain rhai pobl i alw am Goleg Trydyddol cyfrwng Cymraeg er y byddai hynny'n anddifadu ysgolion o'u Dosbarthiadau Chwech. Gwendid y galw yw na ellir cyfiawnhau sefydlu Coleg Trydyddol cyfrwng Cymraeg ar sail y nifer o bobl ifanc ddwyieithog o'r oed yma sy'n byw yn y sir. Y perygl felly yw gweld Colegau Trydyddol Saesneg eu cyfrwng ochr yn ochr ag ysgolion Cymraeg a'r rheini yn methu cyflenwi addysg alwedigaethol. A fyddai ein pobl ifanc wedyn yn barod i fynychu'r ysgolion Cymraeg a fyddai'n cael eu rhedeg o dan reolau ysgol a gweld eu cymarodyr Saesneg eu hiaith yn mynd i'r Colegau Trydyddol cyfoethog eu hadnoddau? Mae gen i ofn mai pleidleisio â'u traed y byddent.

Merfyn Griffiths, Prifathro Ysgol Gyfun Llanhari

## CLOCHDAR

Mae eisiau clochdar hefyd. Mae'r pedwerydd papur bro i gael ei sefydlu o fewn cynifer o flynyddoedd yn ne-ddwyrain Cymru ar fin ymddangos. Efallai'n wir ei fod wedi ymddangos erbyn hyn. Ei enw fydd *Clochdar* a bydd yn gwasanaethu ardal Aberdar. Bydd yn cael ei olygu gan Eric Jones gyda chymorth tim o gydweithwyr brwd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd eisoes sefydlu *Y Gloran* yn y Rhondda, *Tafod-Elái* yn Nhaf-Elái, ac *Yr Hogwr* yn ardal Pen-y-bont-ar-Ogwr. Mae'r *Dinesydd* yng Nghaerdydd hefyd yn dal i fynd o nerth i nerth.

Dymunwn bob llwyddiant i *Clochdar* a phob rhwyddineb i'r tîm sydd wrthi'n ei gynhyrchu.

# YNYS-Y-BWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine

EGLWYS Y TABERNACL

Llynedd roedd aelodau'r Tabernacl yn brysur iawn wrth ddathlu Canmlwyddiant yr Eglwys. Dechreuwyd yr Achos yng Nghwesty'r Windsor yn 1886. Eleni cynhaliwyd gwasanaethau arbennig ym mis Hydref i ddathlu Canmlwyddiant Agoriad y Capel o dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch John Davies a'r Parch Rhys Tudur, cyn-weinidog yr Eglwys.

Y WEINIDOGAETH IACHAU

Cynhaliwyd Gwasanaeth Bendithio o dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar nos Fercher, Hydref 14, yn Eglwys Noddfa. Arweiniwyd mewn defosiwn gan y Parch M.R. Mainwaring, Caerdydd, a rhoddwyd yr anerchiad gan y Parch Haydn Thomas, Caerdydd. Cafwyd gwasanaeth hyfryd a bendithiol dan eu harweiniad.

EGLWYS NODDFA

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol yr Eglwys uchod ar Hydref 17 a 18. Y Pregethwr gwadd oedd y Parch D. Eirian Rees B.A. B.D., Efail Isaf, Cyfarwyddwr y Cyngor Unedig ar Alcohol a Chyffuriau eraill. Cafodd pawb godiad ysbrydol wrth fod yn bresennol.

GARTRE O'R YSBYTY

Hyfryd cael Catrin, merch James a June Valentine gartre ar ôl bod yn Ysbyty'r Brifysgol, Y Waun, Caerdydd lle mae wedi cael llawdriniaeth. Mae pawb yn Ynysybwl wedi bod yn garedig iawn, wrth feddwl, holi a gweddio amdani. Mae'r teulu i gyd yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd.

MENCAP

Cynhaliwyd Noson Goffi ar nos Wener, Hydref 30, yn 25 New Road. Casglodd nifer o bobl ynghyd a mwynhaodd pawb y wledd o fwyd a baratowyd gan y chwilorydd Hughes. Fe aeth elw y noson (£75.50) tuag at Mencap, elusen Noddfa am y flwyddyn. Diolch yn fawr i'r Chwilorydd am gynnal y noson yn eu tŷ ac am yr holl waith a wnaethant i sicrhau llwyddiant y noson.

MARWOLAETH

Mae Eglwys Noddfa wedi colli el haelod hynaf, sef Mrs Myfanwy Davies, Greenland, New Road. Bu farw yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd, ar Hydref 31 yn 92 mlwydd oed. Roedd Mrs Davies wedi cael el chodi yn yr Eglwys ac roedd ei chariad tuag at Noddfa yn fawr iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu i gyd.

# LLANTRISANT

Gohebydd lleol: Eirlys Lamb

Ysgol Gymraeg Llantrisant

Cynhelir y Gwasanaeth Carolau blynyddol yn Eglwys y Plwyf, Llantrisant brynhawn Mawrth, 15 Rhagfyr.

Y Gymdeithas Gymraeg

Cynhelir gwasanaeth plygain yn Mhontyclun ar noswyl Nadolig, i ddechrau am 11.30 o'r gloch.

Seren Newydd

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig cewch gyfle i weld un o blant yr ardal yn cymryd rhan mewn ffilm ar S4C. Bu Gareth Triggs o Donysguboriau, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, yn brysur yn ddiweddar yn ffilmio ar gyfer *Dyn y Llun*, ffilm deledu gan Gwenlyn Parry a Ken Howard. Mae'r ffilm yn olrhain hanes William Haggar, arloeswr ym myd ffilmiau ar ddechrau'r ganrif. Mae'n debyg bod sinema ym Mhontarddulais wedi'i henwi ar ei ôl. Roedd gan Haggar 8 o blant, a chai bleser mawr yn eu ffilmio. Mae Gareth yn cymryd rhan Roy, yr ieuengaf o'r plant. Sue Roderick a Dafydd Hywel yw'r prif actorion fydd yn cynorthwyo Gareth.

Gwnaed llawer o'r ffilmio ym Mro Morgannwg ac yng nghyffiniau Caerdydd. Landseer Films a BBC Cymru fydd yn gyfrifol am y cynhyrchiad, gyda Ken Howard yn cyfarwyddo a John Hefin yn cynhyrchu.

Bydd y ffilm yn cael ei dangos yn Saesneg ar BBC2 dan yr enw *Penny for Your Dreams*.

# PERLAU'R PLANT

O Ysgol Llantrisant y daw'r perlau'r mis yma. Ac a'r Nadolig yn nesáu, mae'n ddigon priodol bod rhyw gysylltiad Beiblaidd rhyngddyn nhw. Ysgol dda 'di Ysgol Llantrisant!

Maen nhw'n mwynhau canu yn nosbarth Mrs Treharne, ac roeddan nhw'n cael cymaint o flas ar un emyn nes i un ferch fach ofyn am gael canu'r 'Kit-Kat' eto! Canu emyna' oedd dosbarth Mrs Owen (ap Concord) hefyd. (Ew, o'n i'n deud 'i bod hi'n ysgol dda.) A rheini'n llawn o eiria digon anodd i blant chwech oed. 'Be' 'di ystyr "rhoddion" blant?' gofynnodd yr athrawes gydwybodol. 'Beth chi'n ga'l 'da'r meddyg pan y'ch chi'n dost Miss.' Wel, rhag drysu mwy ar y bychan, aeth Miss ddim i sôn am Ffisigwr Mawr y Byd am y tro.

Gyda llaw, chwi Hwntws, talwch sylw: Mrs Owen ydy'r athrawes 'sy'n dod o Gymru'. Hyn yn ôl un o'r newydd-ddyfodiaid i'w dosbarth oedd wedi'i dallt hi. Neu oedd yn cael traffarth i'w dallt hi.

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig rai blynyddoedd yn ôl oedd hi, a'r fechan wedi clywed digon o sôn rhwng yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol Sul am fugeiliaid a doethion ac ati. Yn ysbryd yr Wyl, roedd hithau wedi bod yn cerdded o gwmpas y tŷ a'r lliain sychu llestri ar 'i phen. Minnau a mam wrthi'n paratoi rhywbeth Nadoligaidd yn y gegin.

O glywed y tŷ'n rhyfeddol o ddistaw, dyma fynd i chwilio amdani, a'i chael yn y 'stafell bella', a'r lliain sychu llestri bellach wedi'i daenu'n ofalus ar stôl y piano. 'Be' ti'n 'neud yn fa'ma?' meddwn i. 'Wel,' meddai hitha'n ddigon diamynedd, 'Mair 'dw i, a 'dwi'n gneud cinio i'r bugeiliaid. Ac mae o'n barod hefyd, felly oer allan o'r stabal!'

Gobeithio y cewch chitha' flas ar eich cinio. Ac os teflir unrhyw berlau o'ch blaen yn ystod yr Wyl, codwch nhw, eu pacio'n ofalus yn un o'r darnau papur 'Dolig 'na, rhoi 'Â MAWR OFAL' ar yr amlen, a'u hanfon os gwelwch yn dda at:

*Perlau'r Plant*
*Maes yr Haul*
*Cross Inn*
*Llantrisant.*

Nadolig Llawen!

# YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Walter Chivers, ffordd y Capel ar ddathlu eu priodas aur. Nid yw Mrs Chivers wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar a dymunwn adferiad buan iddi. Mae'r pentrefwyr yn cofio wyneb siriol a gwên hapus Walter pan oedd yn dod o gwmpas y pentref yn ei siop deithiol yn gwerthu ffrwythau a llysiau. Mae merch Mr a Mrs Chivers, Mrs June Griffiths yn adnabyddus i aelodau'r Tabernacl gan mai hi a'i gŵr Malcolm yw gofalwyr y capel.

BEDYDD

Profiad digon pleserus i'r Parchedig Eirian Rees mae'n siwr oedd cael bedyddio ei wyres fach, Ffion Caroline ar Ddydd Sul y cyntaf o Dachwedd. Merch Caroline a Geraint yw Ffion. Maent fel teulu wedi cartrefu yn 5 Briar Way, Tonteg, erbyn hyn. Braf oedd cael cwmni hynaws tad, mam a brawd Caroline yn yr Oedfa. A thipyn o Oedfa oedd hi hefyd gyda aelodau Teulu Twm yn ein harwain at y Gwirionedd trwy gyfrwng sgets, darlleniadau cyfoes a dawns digon nwyfus a drefnwyd gan Manon Morris, un o'r aelodau. Geraint a Caroline sy'n cyfarwyddo'r grŵp yma a dylai'r bobl ifanc fod yn dra diolchgar i'r ddau am eu harweiniad a'u gwaith diflino.

SIOP GERDIAU CYMRAEG Y TABERNACL

Os ydych wedi anghofio prynu carden pen-blwydd, cyd-ymdeimlad neu ddathliad o unrhyw fath yng nghanol rhuthr siopa Nadolig yn y ddinas ar brynhawn Sadwrn, na ofidiwch, mae gan Bethan Samuel gyflenwad o gerdiau Cymraeg ar werth i blesio pawb bob bore Sul yn y Capel. Cofnogwch y fenter. Mae'r Capel yn elwa hefyd.

CALIMERO

Bydd y rhaglen "Bambŵ" yn hymian yn y cefndir yn aml ar Fore Sadwrn wrth imi ruthro o gwmpas y gegin wrth fy ngwaith. Dychmygwch y sioc rhyw fore ym mis Tachwedd pan glywais am rhyw grŵp o bentref Efail Isaf. Roedd yn anhygoel, a fi, y gohebydd lleol heb glywed amdanynt. Dyma roi'r haearn smwddio i lawr a dechrau gwrando, a chlywed lleisiau dau o'm cyn-ddisgyblion yn yr Ysgol Gymraeg yng Ngarth Olwg yn dweud eu bod wedi ymuno â Llio Millward o Aberystwyth i ffurfio grŵp o'r enw Calimero.

Beth fydd dyfodol y grŵp? Cewch yr ateb wrth gysylltu â Gwion Rees, 51 Penywaun, neu Michael Roberts, 8 Tir Coch, Yr Efail Isaf.

Pob lwc i Calimero yn y dyfodol.

NADOLIG YN Y TABERNACL

Bydd croeso cynnes i bawb ymuno ag aelodau'r Tabernacl i ddathlu'r Nadolig. Ar Ddydd Sul, Rhagfyr 20ed fe fydd Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.30, a Gwasanaeth Plygain am 6 yr hwyr. Bydd croeso i grŵpiau, neu deuluoedd a chymdogion i baratoi eitemau ar gyfer yr Oedfa hon.

Cynhelir Gwasanaeth Noswyl y Nadolig am 11 o'r gloch yr hwyr. Estynnir croeso cynnes i chi gan y gweinidog, Y parchedig Eirian Rees i ddod ag aelodau o'r teulu a'ch cymdogion i'r Gwasanaeth dwy-ieithog yma hefyd i groesawu'r Nadolig.

Fe fydd parti i blant yr Ysgol Sul ar Nos Wener 18fed o Ragfyr, gan obeithio y bydd Siôn Corn yn cyrraedd yno rywbryd yn ystod y noson ac ar Nos Fercher Rhagfyr 16ed bydd Parti i aelodau Teulu Twm.

Ar ôl llwyddiant yr apêl am deganau ail-law i'w cyflwyno i blant mewn angen llynedd fe fydd rhan o oedfa Fore Sul, Rhagfyr 27ain yn cael ei neilltuo i gyflwyno a chasglu rhoddion o deganau oddi wrth y plant.

# LLANILLTUD FAERDRE

Gohebydd Lleol:
Gwyn Jones (202973)

YSGOL FEITHRIN

Dymunwn yn dda i Mrs Rhian Eyres, a adawodd ei swydd fel un o'r athrawesau diwedd mis Tachwedd, mae hi nawr yn dysgu plant Ysgol Feithrin Salem, Tonteg. Mrs Gillian Richards sydd wedi cymryd lle Mrs Eyres, dymunwn groeso mawr iddi.

NEUADD PRYSUR

Mae Neuadd Dowlais wedi hen gynefino â chlywed Cymraeg yr Ysgol Feithrin yn ystod y dydd ond roedd y lle yn sian-di-fang o Gymry yn ymarfer, perfformio a gwylio ar ddramau yng nghanol mis Tachwedd. Yn ôl y prysurdeb a'r cynulleidfaoedd roedd Ail Wyl Ddrama Tafod Elai yn ein Neuadd yn llwyddiant mawr.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies (891344)

TWMPATH DAWNS

Bu'r Twmpath a gynhaliwyd gan bwyllgor Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn Neuadd y Pentref, Nos Sadwrn, Tachwedd 14eg, yn llwyddiant ysgubol. Bu pawb yn dawnsio'r nos i gyfeiliant band Cadlan, sy'n siwr o fod yn treulio'r rhan orau o'r flwyddyn yn galw yn nhwmpathau Pentyrch!

MERCHED Y WAWR

Gwledd i'r llygad yn wir oedd cyfarfod mis Tachwedd pan fu Siân Elin yn arddangos ei gwaith ac yn egluro gwahanol brosesau ei hartistwaith. Yn ogystal â gwnio a gwau, mae Siân Elin yn cynllunio, dylunio, a phrintio defnyddiau, ac yn llwyddo i gyflwyno'r cyfan yn hynod o ddiymhongar. Graddiodd mewn Gweadwaith a Dylunio yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, ac mae bellach wrthi'n ei sefydlu ei hun mewn busnes yn y maes hwnnw. Dymunwn iddi bob ffyniant yn y dyfodol.

ADFERIAD BUAN

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mr Edgar Walters o Lanymddyfri, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Frenhinol Gwent yn ddiweddar. Mae ei ferch, Heulwen yn byw ym Maes y Sarn, Pentyrch, ac mae Mrs Walters yn aros efo Heulwen a Dewi a'r plant er mwyn bod yn nes ar gyfer ymweld â'i gŵr tra bydd yn yr ysbyty.

SIOE BYPEDAU

Bu llawer o blant a mamau'r Ysgol Feithrin a Chylch Mam a'i Phlentyn y pentre mewn sioe bypedau gan Gwmni Cortyn yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen pnawn lau, Tachwedd 12fed, ac roedd hi'n werth chweil gweld y plant bach yn ymateb mor rhwydd a naturiol i stori'r pypedau - melys moes mwy!

CRI DE COEUR

Yn eisiau - newyddion, digwyddiadau diddorol, cymdeithas Gymraeg Llanilltud Faerdre: mae rhywbeth gwerth ei gofnodi yn digwydd ym mhobman (hyd yn oed Ll. Faerdre?) ond 'does fawr o ddim yn cyrraedd ein gohebydd er gwaethaf cerdded y strydoedd gyda pensil yn ei Trilby a nodlyfr ym mhoced ei Burberry. Eitemau, newyddion, 'clecs' os gwelwch yn dda - perchir pob cyfrinach!

# DIFERYN BACH SANTA!

Y Bore 'ma torrodd newyddion fod Mrs Lawson number 11 wedi bod yn nwylo'r heddlu a bod rhyw sôn am yfed a gyrru. Erbyn daw'r **Tafod** i'ch dwylo byddwn yng nghanol ymgyrch arall yn erbyn yfed a gyrru. Mae'r twrci a'i awr fawr yn ymyl a byddwn yn gweld rhai pobl yn lladd ei gilydd hefyd. Mae Gŵyl y Geni'n ŵyl y lladd hefyd! Y gwir plaen yw ein bod yn yrwyr digon sâl ar brydiau heb unrhyw help cyffuriol. Does dim angen diflasu dynion gyda ffigyrau.

Diferyn o Beth

Rydym ni'n caethiwo'n gilydd gyda'n arferion cyffredin a'n disgwyliadau. Os felly gallwn hefyd ryddhau'n gilydd o bob math o gaethiwed. Cynnwys hyn wrth gwrs gaethiwed ymarferol, Alcohol.

Beth sy ar gael?

Mae na ddiodydd diniwed ar gael at dast pawb. Diod cwbl dderbyniol ar bob adeg (ac un sy'n hynod o boblogaidd) yw Schloer, yn sudd afal neu'n sudd grawnwin yn wyn neu'n goch. Ond mae na amrywiaeth mawr ar gael yn y maes yma sy'n gweld cynnydd enfawr ar hyn o bryd o Lager Guiness a Vermouth June, at Kas Bitters.

Llyfryn defnyddiol yw 'Non-Alcoholic Cocktails', Ann Jaspers (£2.50)

Am fanylion pellach am y diodydd yma cysylltwch â Diodydd Ymbarel. Dyma 4 coctel hawdd i'w gwneud erbyn y Nadolig -

DRAIG GOCH

1/2 gwydraid o sudd gwrawnwin coch.
1 llwy bwdin o gordial sinsir
Llenwi'r gwydr a sudd grawnwyn gwyn.
Cymysgu'r cyfan yn dda.

NIWL PIWS

1/2 gwydriaid o win gwyn (di-alcohol)
Llwy bwdin o CASSIS (Siryp curens duon)
Llwy bwdin o pastis (aniseed)
Llenwi'r gwydr a dŵr soda neu lemonêd

SANT CLEMENT

1/2 gwydraid o sudd oren
1/2 gwydraid o bitter lemon.

SHIRLEY TEMPLE

1/2 gwydraid o sudd afal pîn.
1/4 gwydraid o sudd "Passion Fruit"
Llwy bwdin Grenadine
Llenwi'r gwydr a lemoned a chymysgu'n dda.

Addurno - Afal, Oren, Ceirios, Ymbarel Bapur.

# MEISGYN

Gohebydd Lleol: Mererid Morris

Dyma hanes difyr a gefais oddiwrth Elias Jenkins, Bryn Sawddle, Pontyclun.

Yr oedd i deulu Efail Mole Gilliau, Allt-y-Cewri o blwyf Betws Garw (nepell o Faesteg) dri o feibion a ymfudodd i'r Amerig tua chanol y ganrif diwethaf. Aeth uno'r gofaint hyn, Gruffydd Jenkin Griffith, i Galiffornia lle y daeth, drwy fasnachu mewn coed, yn filiwnydd. I ddangos ei werthfawrogiad o'r wlad a'i mabwysiadodd rhoddodd i gyngor Los Angeles dros dair mil o erwau. Erbyn heddiw dyma safle Griffith Park.

Brawd i dad y miliwnydd oedd Morgan Griffith. Ei ferch Mary oedd mamgu Elias.

Tua ugain mlynedd yn ôl pan oedd Elias yn gweithio fel gofalwr yn Sain Ffagan fe gyfarfu ag Americanwyr o Galiffornia. Fel y tybiech, fe gawsant glywed am eu dyled i un o gyndeidiau Elias.

Wedi i'r Americanwyr ddychwelyd dyma barsel yn cyrraedd Bryn Sawddle yn cynnwys yr holl fanylion am Griffith Park ac yn cadarnhau holl ddatganiadau Elias.

Tybed faint yw gwerth tair mil a hanner o erwau ar gyrion Los Angeles, heddiw, lle mae'r "real estate" gyda'r mwyaf gwerthfawr yn y byd? Deg ffigwr?!

Deallaf fod carfan o'r teulu wedi ceisio ail-berchnogi'r tir wedi dyddiau Gruffydd Jenkin. Methiant fu eu hymdrech.

John Morris.


**DIODYDD YMBAREL**

gwin *
lager *
sudd ffrwyth *
coctelau *

(DI-ALCOHOL)

112 Heol Albany,
CAERDYDD

Ffôn (0222) 493895

# CYFRIFYDD I'R CYFRYNGAU

Mae Huw Roberts, cyfrifydd S4C am bum mlynedd wedi ffurfio busnes ei hunan yn canolbwyntio ar y cwmniau teledu a fideo sydd wedi ymsefydlu yn Ne Cymru ers dyfodiad S4C. Yn ogystal, mae Huw yn gwneud gwaith treth, pensiynau a morgeisi i unigolion. Mae'r busnes yn un teuluol gyda'i wraig, Sandra, yn gwneud gwaith ysgrifenyddol o'i chartref, i'w gŵr ac i eraill.


**Huw Roberts** BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

Treth
Cyfrifon
VAT

Buddsoddi
Pensiynau
Morgeisi

*"Preswylfa",*
*28 West Hill Drive,*
*Llantrisant,*
*Morgannwg Ganol*
*Ffôn Llantrisant 224182.*

# Portread y Mis

## RHYS JONES CREIGIAU

Tasg anodd oedd trefnu cwrdd a'r gwr prysur hwn a phan lwyddais yn y diwedd i wneud hyn darganfod el fod e'n haeddu cofiant nid erthygl bitw gan i yn y papur bro! Pan aiwes roedd wrthi'n gwneud gwaith ymchwil i hanes y teulu. Roedd ganddo lyfr hirgul, clorlau lledr a chaead arno. Ar bob tudalen roedd pedwar erwydd - rhai ohonyn nhw'n wag a'r gweddill a'r gerddoriaeth wedi'i hysgrifennu'n gain mewn inc yn llaw el hen, hen dadcu. Mae el enw ar ddalen gynta'r llyfr mewn ysgrifen ddestlus - John Rees' singing book bought at Merthyr November 1842.

Ar ol wyr y John Rees yma sef John Rees arall y cafodd gwrthrych ein portread yn rhannol el enw. Dyma fel y bu. Ar ddiwrnod el enedigaeth roedd el ddwy famgu yn y ty lle'i ganed ac mewn pwyllgor bach cyfrin fe benderfynwyd ar el enw sef enw'r ddau dadcu Thomas Jones a John Rees a'i fedyddio felly'n Thomas John Rhys Jones.

Treulodd wyth mis cyntaf el oes yn Ystradgynlais ac oddi yno symudodd i Abercraf sef pentref genedigol el dad. Ganwyd el dad a'i fam mewn fferm dy o'r enw Pont-y-Wal ar fynydd Criberth uwchben Craig y Nos. Hanai'r gangen hon o'r teulu o biwyf Llanddeusant lle y gellir olrhain yr achau yn ol hyd y flwyddyn 1632. Honnai el famgu ym 1934 fod pawb yn mhiwyf Llanddeusant, ond un teulu, yn perthyn iddi.

Hanai canghennau eraill o'r teulu o San Cler, Llannon, Llanwennog a Threcastell. Daw el hynafiaid o Forgannwg, Ceredigion a Chaerfyrddin. Roedd un hen, hen famgu yn dod o Rydycymerau yn chwaer i arwr mawr D.J. Williams yn Hen Dy fferm sef John Jenkins, Cart and Horses. Roedd hi'n 'arddel perthynas' a theuluoedd D.J. Williams a Gwenallt.

Ar ddechreu'r ganrif roedd mam Rhys Jones yn aelod o ddosbarth ysgol sul tad Gwenallt.

Yn dair oed aeth i Ysgol Cae Hopcyn yn Abercraf - Ysgol gwbl Seisnig ymhob agwedd arni ar bod awyafrif mawr y plant nalll el yn Gymry neu'n Sbaenwyr! Roedd y Sbaenwyr wedi dod drosodd i Gymru tua dechrau'r ganrif fel llafur rhad yn y gweithfeydd glo a bu peth ffrwgwd oherwydd hynny ond fe ddaeth yr ymrafael i ben pan fynnodd y Sbaenwyr hwythau eu hawliau. Roedd Sbaenwyr yn byw drws nesa i'w deulu e phan roedd yn blentyn gallai siarad ychydig o Sbaeneg gan fod y teulu'n derbyn bocsys o orennau a grawnwin o Sbain ac yntau'n cael gwahoddiad i ymuno yn y gweiddoedd. Doedd yr hen bobl yn deall dim ond Sbaeneg ac erfersi Rhys Jones fynd gyda nhw i siop el famgu i egluro iddi eu hanghenion.

Ymhlith el ffrindiau roedd plant a fedrai siarad tair iaith; Sbaeneg a siaradent gartre, y Gymraeg wrth chwarae ar lard yr ysgol ac o gwmpas y lle ac yn yr Ysgol Sul a Saesneg a ddysgent yn yr ysgol. Son am ddwyieithrwydd - roedd nifer o blant Abercraf yn y cyfnod hwnnw yn siarad tair yn gwbl rhugl! Cadwodd el ddiddordeb yn yr iaith hyd heddiw ac mae wrth el fodd yn teithio yn Sbain.

Yn wyth oed symudodd i Bontardawe a mynd i Ysgol yn Alltwen - ysgol Seisnig arall i bob pwrpas a'r rhan fwyaf o'r plant yn Gymry Gymraeg eto. Oddi yno fe aeth i Ysgol Ramadeg Pontardawe lle roedd yr un patrwm iaith yn bod er bod y prifathro yn flaenor yn y capel Methodistaidd Cymraeg ac yn siarad Cymraeg rhugl. Er nad oedd llawer o ddiwylliant Cymreig tu fewn i furiau'r ysgol roedd digon o weithgareddau Cymraeg y tu allan.

Roedd pob capel o unrhyw faint yn perfformio oratorio bob blwyddyn yn neuadd Pontardawe a roedd tipyn o gystadleuaeth rhwng y corau yn enwedig pan roedd yr arweinyddion yn perthyn! Doedd dim cor yng nghapel y Bedyddwyr a'i prif adeiladau nhw oedd y ddrama. Perthynai o leiaf dri chwmni drama i'r capel. Ysgrifennai'r gweinidog y dramau a'r cwmniau yn eu hactio.

Mynychai Rhys Jones gyfarfodydd yn y capel bron bob nos o'r wythnos ac mae'n cofio am un practis drama pan ddaeth y gweinidog a'r practis i ben drwy ddweud

"Mae'r cloc newydd daro deuddeg - mae'n fore Sul - gwell i ni gadel hi fannal"

Yr oedd addysg a diwylliant yn y cyfnod hwnnw yn gwbl er wahan. Chwaraeai Rhys Jones rygbi dros yr ysgol ac yr oedd Syr Goronwy Daniel yn aelod o'r un tim.

O Ysgol Pontardawe aeth i Goleg y Brifysgol, Abertawe a graddiodd yn y Gymraeg gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf ac yna ennill ysgoloriaeth Dr Samuel Williams i wneud ymchwil ac ennill gradd M.A.

El swydd gyntaf oedd athro Cymraeg yn Nhonyrefail lle bu am flwyddyn cyn symud i ddysgu Cymraeg a cherddoriaeth yn Ysgol y Garw, Ponycymmer. Cyd-ddigwyddiad rhyfedd oedd fod enwau'r tri phrifathro a'u dalgylch yn ffinio a'i gilydd yng nghanol Morgannwg yn ein hatgoffa o batriarchiaid yr Hen Destament - Abraham Jenkins (Tonyrefail), Daniel Isaac Harry (Pontycymmer) a Jacob Jones (Cwm Ogwr).

O dan el arweiniad cipiodd Adran yr Urdd o Ysgol y Garw y rhan fwyaf o brif wobrwyon Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Un flwyddyn, yn Abergwaun, fe enillion nhw gymaint o gwpanau a tharlannau nes llanw ffenest slop ym Mhontycymmer!

Dim ond rhyw chwech o blant oedd yn Gymry Cymraeg oedd yn yr ysgol ar y pryd.

Bu'n ysgrifennydd cymdeithas i athrawon Cymraeg Ysgolion Gramadeg Morgannwg ac yn ystod y cyfnod hwn llwyddwyd i ddarbwyllo'r Cyd-Bwyllgor Addysg Cymraeg y dylid cael arholiadau i'r plant di-Gymraeg a oedd yn cyfateb i'r arholiadau mewn leithoedd modern eraill a dyna sut y ganwyd lefel O3 yn Gymraeg ac yn ddiweddarach lefel A2.

Hefyd cafodd wahoddiad gan Wasg y Prifysgolion yn Lloegr i ysgrifennu llyfr ar ddysgu Cymraeg yn y gyfres TEACH YOURSELF mewn cyd-weithrediad a J.T Bowen. Cafodd y llyfr gylchrediad eang - gwelwyd ef ar werth yn Moscow gan Jac L. Williams ac yn Los Angeles gan Gwynfor Evans lle'r oedd dosbarth yn dysgu Cymraeg.

Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r llyfr dan y teitl TEACH YOURSELF LIVING WELSH gan fabwysiadu egwyddorion y pamffled Cymraeg Byw. Ar ol cyrraedd y seithfed argraffiad penderfynwyd cyhoeddi llyfr arall yn y gyfres a chynnwys caset yn y pecyn. Disgwylir y bydd hwn yn ymddangos yn ystod y flwyddyn nesa - mae'n brysur wrthi ar hyn o bryd.

Apwyntiwyd el yn Drefnydd Iaith Gorllewin Morgannwg ym 1958. Ymhen ychydig amser fe'i apwyntiwyd yn Drefnydd Iaith Sir Gaerfyrddin lle bu am bedair blynedd. Yn ystod y cyfnod fe'i urddwyd yn aelod Gwisg Wen o'r Orsedd am el wasanaeth i'r diwylliant Cymraeg. Bu hefyd yn olygydd 'Yr Athro' yn yr un cyfnod.

Yn 1962 fe symudodd i fod yn Brif Ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Addysg Cartrefle Wrecsam sy'n awr yn rhan o Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Bu ganddo ran bwysig yn sefydlu Ysgol Morgan Llwyd a bu'n Gadeirydd Pwyllgor y Rhieni am ddeng mlynedd - deng mlynedd o frwydro cyson dros hawliau'r plant a'r ysgol. Yn ystod el flwyddyn ola fel Cadeirydd llwyddwyd i osgoi gwasgu'r ysgol i mewn i gynllun Coleg Trydyddol y Sir gan y goiygai hynny y byddai'r plant a ddysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn gorfod derbyn addysg Saesneg yn y chweched dosbarth ac felly creu bwlch rhwng addysg Gymraeg yn yr ysgol a chyrsiau Cymraeg yn y coleg.

Ymddeolodd fel prif-ddarlithydd ym 1980. Symudodd i'r Creigiau i fyw gyda'i wraig Stella ond bu hi farw dair blynedd yn ol. Mae ganddo bedwar mab - Rhoslyn, Meirion, Berwyn a Rhodri - tri ohonynt wedi graddio yn y Gymraeg ac un wedi dilyn cwrs gradd a'r Gymraeg yn gyfrwng.

Er el fod wedi ymddeol go brin fod amser yn sbar gan y gwr hynaws a gwelthgar hwn. Mae wrth el fodd yn garddio neu ganu'r piano; mae'n brysur yn ysgrifennu; treulia'i brynhawniau Sul yn helpu gyda'r di-gartref yng Nghaerdydd; mae'n aelod ffyddlon yn y Tabernacl, Caerdydd - athro Ysgol Sul ac wedi bod yn un yn ddi-dor ers dros hanner can mlynedd. Does dim pall ar el ynni dihysbydd. Erbyn i'r erthygl hon fynd i'r wasg bydd wedi cael el urddo yn Llywydd Cymdeithas y Cymmrodorion yng Nghaerdydd. Hir y parhaed el gyfraniad gwerthfawr i fyd y 'pethe'.

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Margaret Francis

YR ŴYL GERDD DANT

Llongyfarchiadau i Menna Thomas a ddaeth yn gyntaf ym mhrif gystadleuaeth yr alaw werin yn Aberhonddu ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 7fed. Fe ddaeth hi hefyd yn gyntaf yng nghystadleuaeth y triawd Cerdd Dant, gyda Ann Williams ag Alwena Roberts.

Longyfarchiadau hefyd i Rhodri Francis a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth y Gân Werin dan bymtheg. Bu parti cân werin dan ddeuddeg o Ysgol Gyfun Rhydfelen yn llwyddiannus hefyd.

PRIFATHRO NEWYDD

Llongyfarchiadau i Mr Roy Lewis, Heol Graigwen, sydd newydd gael ei benodi yn brifathro Ysgol Gynradd Llwynypia, Rhondda. Pob dymuniad da iddo.

SALWCH

Trist yw clywed am salwch Mrs Aelonwy Rees, Y Comin, Pontypridd. Mae Mrs Rees yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontsionnorton. Gobeithio y bydd hi'n well yn fuan.

DYDDIADUR

Noson Goffi Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James gyda eitemau gan y plant, yn yr ysgol, am 7 o'r gloch Nos Iau, Rhagfyr 3ydd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontsionnorton gyda Cadlan yng Nghlwb y Bont ar Ragfyr 9fed am 7.30pm.

CAPEL SARDIS

Gwasanaeth Nadolig yr Adran Fabanod - Rhagfyr 13fed am 10.30 a.m.

Gwasanaeth Nadolig yr Adran Gynradd - Rhagfyr 13ed am 6.00 p.m.

Gwasanaeth Nadolig i blant Sardis - Rhagfyr 20fed am 10.30 a.m.

Parti Nadolig i blant Sardis (gyda Siôn Corn) - Rhagfyr 22fed yn y festri am 6 p.m.

# TONTEG

Gohebydd Lleol: Sian Jones

ENNILL CYSTADLEUAETH

Mae Laura Unett o Neyland Close, Tonteg, wedi ennill ei chystadleuaeth cyntaf a hithau ond dwy flwydd a hanner oed. Bob blwyddyn bydd mam Laura yn mynd â Laura a'i chwaer Sarah i gael eu lluniau wedi tynnu gan gwmni Ffotograffiaeth Parasol yn siop Peacocks ym Mhontypridd er mwyn rhoi lluniau o'r plant i'r teulu amser Nadolig. Eleni roedd y cwmni'n cynnal cystadleuaeth, a llun o Laura gipiodd y wobr gyntaf i blant 2-5 oed. Gwobr Laura oedd llun mawr ohoni hi ei hun ac mae e'n werth ei weld yn hongian ar y wal yn ei chartref. Llongyfarchiadau Laura.

ADFERIAD

Dymunwn wellhâd buan i Miss Eluned Thomas, Blaenywaun, Salem Lane, Tonteg. Mae Miss Thomas adref erbyn hyn ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg.

CYLCH MEITHRIN TONTEG

Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Carol Minton, un o athrawesau'r cylch, ar ei hymddeoliad o'r Ysgol Feithrin ar ôl pum mlynedd o lafur caled!! Bydd Carol yn mynd i weithio dros dro fel Cynorthwywraig Feithrin yn Ysgol Gymraeg Castellau ac ar ran rhieni a phlant y Cylch Meithrin carem ddiolch iddi am ei holl waith gyda'r plant bach.

Pleser hefyd yw croesawu Mrs Rhian Eyres i'r Cylch i gymryd lle Carol a dymunwn yn dda iddi hithau yn ei swydd newydd.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Cyngerdd Nadolig am un o'r gloch p'nawn Mercher, Rhagfyr 16eg ac yna'n ymuno â'r Cylch Mam a'i Phlentyn am barti Nadolig a ymwelliad Sion Corn.

MERCHED Y WAWR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Mudiad nos Fercher, Ionawr 27ain am 7.30 pm yn Nhŷ Illtud. Y siradwraig fydd Mrs Aneira Davies a'r testun fydd "Rhai profiade ....".

# FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd Lleol: E. June Huws.

CAPEL BETHLEHEM

Ar ddydd Sul Tachwedd 29ain bydd y BBC yn recordio canu cynulleidfaol y capel ar gyfer rhaglen radio. Gobeithio bydd yr ymdrech yn fwy llwyddiannus na'r ffilmio anorffenedig ar gyfer y teledu ddwy flynedd yn ôl!

GRWP HEDDWCH

Bydd noson o adloniant yn Neuadd y Pentref am 8.00 nos Sadwrn Rhagfyr 12ed, Grŵp o Dde Amerig fydd yn diddanu a bydd bwyd yn gynwysedig ym mhris y tocyn, dwy bunt. Os am fwy o fanylion ffoniwch 810149.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Janet Daniel a'i theulu yng Ngwaelod y Garth ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

YSGOL GWAELOD Y GARTH

Bu prysurdeb mawr ar fuarth yr ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bu gweithwyr y Cyngor wrthi yn ddyfal yn dymchwel yr hen gysgodle a siediau erail!. Tybed beth sydd ar droed? A ddaw rhywbeth i gymeryd eu lle? Arhoswn yn eiddgar am ddatblygiadau pellach!!

Mae prysurdeb o fath arall ar droed yn yr ysgol hefyd, sef paratoi ar gyfer y Cyngerdd Nadolig ac mae rhyw si ar led mai genedigaeth yn y Gorllewin Gwyllt a gawn y flwyddyn hon!



Dymuna
Nan a Merfyn Griffiths
Nadolig Lawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion oll.

# Ail-Wŷl Ddrama Tafod ~ Elái.

## yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref

~.~

## 18/19/20 Tachwedd, '87

Owain Rhys ac Emma Caddy yn derbyn Tlws yr Ysgolion ar ran Ysgol Gyfun Rhydfelen

Dau olygfa o 'IAN' cynhyrchiad Ysgol Gyfun Rhydfelen

Cwmni Ysgol Uwchradd Cwm Rhymni yn perfformio 'Ac Er Gwaeth'

Roy Davies yn brysur yn gosod goleuadau.

Cast 'Ac Er Gwaeth'

Ymddiheuriadau i Gwmni Bwr' Crwn Ysgol Glantaf - mae eu lluniau ar goll. Cafodd eu cyflwyniad o PLAnt ganmoliaeth uchel gan y beirniad.

# Ail-Wŷl Ddrama Tafod ~ Elái.

Yr enillwyr
Cwmni Theatr Gymraeg
Clwb y Bont
'Cybydd Tavellsium'

Cynrychiolwyr y pump cwmni

Cwmni'r Fuwch Goch
'Y Gadair Olwyn'

Cwmni Clwb Ifor Bach
'Y Practis'

## MWYNHAD A BODDHAD

Mae beth bynnag a wnelr yn y Gymraeg, gan bwy bynnag , ag yn lle bynnag, yn naturioi yn hwb i'r iaith, ac i ddyfodol yr iaith honno. Yn sicr, mi fu'r papur bro **Tafod Elai** yn hwb ac yn help i ni yng nghwm cyfagos Ogwr i sefydlu'n papur bro ein hunain bron i flwyddyn yn ôl, ac i all-sefydlu ein Eisteddfod ein hunain y llynedd. Fy mraint i eleni oedd cael beirniadu yn eich GŴyl Ddrama chi yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre, a chredwch fi neu beidio, ni chefais gymaint o fwynhâd - na boddhâd - ers amser maith.

Gan fod y rhan fwyaf o'r bobol, lfanc a hen, sy'n derbyn y **Tafod** yn bresennol yn yr ŴyI, dw'i ddim yn bwriadu all-sgrifennu'r feirniadaeth (faith yn ôl rhai tystion!) yn y fan hyn, ond gwneud ambell i sylw ar yr ŴyI yn gyffredinol. Hyfryd oedd gweld yn gyntaf, tair cynulleidfa fawr wedi'u tynnu i'r neuadd, ac yn eu plith, rhesi ar ôl rhesi o blant yn gwrando a gwylio llawn cystal â'r oedolion. Dyna chi hwb i'r galon oedd cael eistedd yn eu plith, a'u gwylio nhw yn llygadrythu ar y llwyfan heb golli un dim, ac yn ymateb mor fendigedig - Pwy all anghofio'r "Na, na" ar y Nos Wener!

Y Plât arbennig a
gyflwynyd i'r Enillwyr

Cwmni Un-nos yn perfformio
'Y Ddraenen Fach'
Enillwyr y Cwpan am bleslo'r beirniad

Cwmni'r Dwrlyn
'Y Dyn Codi Pwysau'

## AD WRTH FEIRNIADU

Fel y crybwyllwyd yn barod, cafwyd tair noson o berfformio, Nos Fercher i'r Ysgolion - a'r ddwy arall i'r Cwmniau lleol. Cafwyd tri perfformiad bendigedig gan yr ysgolion, ac ar ôl gryn feddwl, dyfarnwyd Tlws yr Ysgolion i Rydfelen, gyda chanmoliaeth uchel i ysgol Glantâf. Ysgol Cwm Rhymni oedd y cystadleuwyr eraill. Tybed ble roedd Ysgol Llanhari, a hwythau o fewn talgylch yr Ŵyl? Roedd perfformiad Maria Pride yng nghyfiwyniad Rhydfelen yn un o uchafbwyntie'r Ŵyl gyfan imi.



Cafwyd amrywiaeth dda gan y cwmniau eraill. Dwy ddrama gan Wil Sam sef y Gadair Olwyn a'r Dyn Codi Pwysau, Y Practis gan Leyshon Williams, Y Ddraenen Fach gan Gwenlyn Parry ac i orffen ar y Nos Wener, stori Cybydd Taveliseum gan Gwmni Theatr Gymraeg Clwb y Bont. Gwell cyfadde' ar y dechre, roedd y safon dipyn yn uwch nag oedd y beirniad druan wedi'i ddychmygu, a chryn bleser oedd hynny credwch fi. Wrth gwrs fe anghofiodd ambell un, ac fe aeth un ne' ddau o bethe bach o'i le, ond pa ddrama sydd heb ei ffaeleddau. Roedd 'na berfformiade bendigedig, rhai sy'n haeddu cael eu cofnodi yn y fan a'r lle. Anthony Evans a Gareth Westacott yn Y Practis, Bryn Roberts a John Hardy yn Y Ddraenen Fach, Ann Parry yn y Gadair Olwyn (o bosib yn ymylu ar fod yn "berfformiad yr Ŵyl"), Nerys Snowball a Huw Llewelyn Davies yn Y Dyn Codi Pwysau ac yna sawl perfformiad arbennig yn "Cybydd Taveliseum"; Hefin Griffiths fel Purstinius, Anna Jones fel Sleboga, y forwyn hyll', Geraint Pennant fel Vasectomus ac yn y blaen. Hon oedd cyflwyniad gore'r Ŵyl, a nhw felly gipiodd y wobr gyntaf, gyda Cwmni Un-Nos a'r "Ddraenen Fach" yn cael y cwpan am bleslo'r beirniad.

A dyna ni, mae'r Ŵyl drosodd am flwyddyn arall. Y chwysu a'r poeni, y nerfe a'r dagre yn llonydd am sbelen eto, ond ddim cwelt i bawb. Gwahoddwyd pedwar Cwmni, sef Ysgol Rhydfelen, Clwb y Bont, Cwmni Un-Nos, ac un o gwmniau Clwb Ifor Bach, i berfformio yng Nghlwb Brynmenyn ym mis Ionawr, ac edrychwn ymlaen yn fawr am noson i'w chofio.

Yn olaf, diolch am y gwahoddiad i feirniadu eleni. Cefais groeso heb ei ail, gyda'r tê a'r bara brith yn dod yn gyson at y ford fach! Diolch i Geraint Pennant am y wledd Nos Wener, ac am gwmni pawb arall oedd yno, yn arbennig yr 'Hotelier' Owain Llew. I ddiweddu, llongyfarchiadau mawr i Colin Williams a'i bwyllgor am drefnu GŴyl amatur mewn modd mor broffeslynol, a hoffwn ddymuno pob lwc a llwyddiant ichi yn y dyfodol.

HUW CEREDIG.

# O'R RHES GEFN

Wel, ffrindie bach, bant a fi i All Ŵyl Ddrama Tafod-Elai yn Neuadd Dowlais wsnoth dwetha. Ar ôl llynedd 'dodd dim gwaith perswado arna' i, er fod rhaid i Megan weud mai dyna'r peth diwylliedig i neud. Gwendid bach arall sy gyda hi yw egluro popeth sy'n digwydd yn 'y nghlust i. Ta beth, fe ath pethe'n eitha Nos Fercher yn ystod y ddrama ginta gyda Merched Ysgol Cwm Rhymni. Dyna i chi beder merch drefnus, pob un yn gwbod i geire ac yn actio'n gadarn. Dwi'n nabod ambell un debyg i'r fenyw lanhau na gan Lisa James. Cofiwch fe golles i bethe fan hyn a fan 'co achos 'rodd yr laith yn Ogleddol lawn. Trueni na fydde rhywun wedi addasu peth o'r laith i'r merched bach 'na.

Wedyn fe geson ni hwyl yng nghwmni Plant Ysgol Rhydfelen. Fe wedodd Megan mai drama gerdd odd hi, a dwi wedi dwli ariod ar ganeuon y Beatles. Rodd y stori fach annwyl am lan yn dod a'r macyn mas yn aml. Dwi'n cofio gweld lan Staples fel "lan" a nawr dyma fe a Maria Pride yn blant mawr ac yn actorion o fri. Ro'n i'n dwli ar Owain Rhys ac Emma Caddy yn actio mor naturiol. Dyna bleser pur o'r dechre i'r diwedd ac fe gauodd Megan i cheg drwy'r perfformiad am unwaith.

Fe ges i sioc pan ddechreuodd drama'r merched clefer na o Ysgol Glantaf. Ro'n i'n anghyfforddus o'r dechre pan weles i'r geirie 'hanlaethol ac arbrofol' yn y rhaglen. Dyna lle rodd y merched yn actio'u calonne mas ar y llwyfan - a hithe Megan yn egluro pob symudiad i fi, fel tase hi ddim yn amlwg i bawb fod y Pla Du wedi lladd lot o blant yn Llunden yn 1665. Mae'n demtasiwn i weud wrthi i bod hithe'n ddigon o bla weithe!

Nos lau

'Nol y rhaglen ro'n i'n edrych mla'n am noson sylweddol. Pan weles i het Anthony Evans a'r olwg wyllt arno fe steddes 'nol i fwynhau'r ffars. Rhaid dweud bod Gareth Westacott yn drech na'r dramodydd, fel odd hi fod, a'r actorion i gyd ar i gore. Diolch am "Y Practis", Cwmni Ifor Bach.

Paned wrth Merched y Garth a nol a fi i gael tamed difrifol o waith Gwenlyn Parry. Drama ryfel odd hi, gan Gwmni Un-nos, a dyma fi'n ca'l cip ar y rhaglen pan ddechreuodd Megan egluro i fi "pwy odd pwy". Wydden i ddim fod cymaint o dalent actio sbar yn crwydro rownd y BBC 'na. Pan glywes mai Carol Hardy odd wedi cadw nhw mewn trefn, ro'n i'n gwbod pwy oedd i ddiolch am yr actio graenus.

Y ddrama ola' odd un gan Wil Sam, gyda Chwmni'r Fuwch Goch. Ron i'n cydymdeimlo 'da pawb yn y teulu yn arbennig gyda Hasel Morgan fel Nain, a dyna dro bach ar y diwedd, ontefe? Weles i ddim mor ddoniol a'r doctor a'r botel pils! 'na dda odd y merched yn y ddrama - Anne Parry, Menna Medi a Ceri Mair.

Nos Wener

I fod yn onest fe es i Nos Wener i weld wynebe adnabyddus yr ardal. Rodd Clwb y Dwrlyn yn perfformio'r "Dyn Codi Pwyse". Alle i ddim pido son am lfan Wyn fel Tald, Huw Llyweleyn fel Mici Marconi a Colin Williams fel Mr Huws. Meddyliwch amdano fe, Mr Colin Williams, yn trefnu'r ŵyl, llywio'r pwyllgor, gofalu am y beirniad, symud cadeire, cyhoeddi bob nos, cadw llygad ar y tlyse, ac ar ben y cwbwl digon o egni ar ol 'dag e i actio. 'Na seraff o ddyn i chi! Fe gawson ni actio glew gan Ann Dwynwen, Nia Williams a Nerys Snowball, hefyd.

I gloi'r ŵyl 'rodd Cwmni Theatr Gymraeg Clwb y Bont (fel y galwasant eu hunain) yn perfformio "Cybydd Tavelisium". Credech chi ddim, ond dyna le 'rodd y Gareth Mells drygionus 'na wedi trelo twyllo pawb a dweud fod Menna Lewis wedi addasu'r ddrama o ryw hen lawysgrif Rhufeinig.

Na lwcus odd yr ŵyl fod y beirniad craff Mr Caredig wedi gweld trwy'r twyll i gyd. Ond a dweud y gwir rodd y ddrama'n ddoniol lawn, gwell nag unrhyw bantomeim welwch. Ron i'n dwli ar yr enwau. A'r cymeriadau sy'n aros yn y meddwl? Hefin Griffiths a'i goese teidi, y Dafydd Idris nefolaidd, Geraint Pennant a'i drwyn yn yr awyr a'r Anna Jones Siebogaidd. "Faecis tavri omni vincvnt", meddai Megan. A diawch odd hi'n go agos i'w lle.

Lar Familiaris, Nymphia a Vasectomus

Fe ddaeth y beirniad Mr Caredig i'r llwyfan yn edrych yn debyg i Reg "Pobol y Cwm" ac yn llawn doethineb. Fe roddodd y wobr i'r ysgolion i Rydfelen a rhoi lot o ganmoliaeth i Glantaf. Cwmni Clwb y Bont gafodd y plât i'r cwmni oedolion gorau ac fe gafodd Cwmni Un-nos y cwpan am roi boddhad arbennig i'r beirniad. A nawr rwyn edrych 'mlan am flwyddyn nesa.

MURIEL

Hoffai'r **Tafod** ddiolch i'r canlynol am eu cymorth yn ystod yr ŵyl.

Pwyllgor Neuadd Dowlais
Côr Merched y Garth
Cymdeithas Drama Cymru
Uned Gymunedol Ffynnon Tâf

Aelodau Merched y Garth yn darparu tê a lluniaeth yn ystod egwyl.

# GWYL Y GOGS?

Annwyl Barchus Drefnydd
yr Ŵyl Ddrama,

Ysgrifennaf atoch noson wedi All Ŵyl Ddrama Tafod Elai i fynegi'n gryf fy nghwrthwyneblad dros alw'r Ŵyl Ddrama hon bellach o dan y teitl uchod. Dyma'r rhesymau. (Ag eithro'r Noson ysgolion).

Sylwoch chi Mr Trefnydd ar y dewis o ddramâu eleni? Pob un ohonynt, ar wahan i "gampwaith clasurol y dramodydd Plautus", wedi'i hysgrifennu gan Ogleddwyr amlwg lawn ym myd y ddrama Gymraeg; Wil Sam, Gwenlyn Parry a Leyshon Williams.

Os na sylweddoloch chi hynny Mr Trefnydd bach, dwi'n siwr ichi bryderu'n dawel bach mai dim ond un deheuwraig a gafwyd ymysg y cynhyrchwyr Gogleddol!

Ond â dweud y gwir yn blaen rwan, Mr Trefnydd ar sail y canlynol hoffwn osod prif bwyntiau pwysicaf fy nadl.

Fel un o'r Gogledd, a aeth ati i geisio "deffro'r pum synnwyr" ymysg y gynulleidfa yn Neuadd Dowlais, wedi imi ddewis y ddrama oddiar silff llyfrgell y BBC (ac roedd yr hen lfan wedi'i bodio chydig ddyddiau ynghynt yn ôl y sôn), rhaid oedd imi ffeindio pum dyn dewr a thalentog i ymgymryd â'r dasg o roddi "i'r byd ar lwyfan aur, ymdrech ddihewydd, dynolryw" ys dywed Norah Isaac lawer tro.

Wel, dyma ddechrau chwilio Mr Trefnydd bach, am bedwar Gogleddwr ac un Deheuwr i actio! Cyn pen dim roedd tri wedi cytuno, sef Bryn Roberts, Allan Pickard a John Hardy, a'r tri ohonynt Mr Trefnydd yn ymfalchio yn y ffaith fod Gwenlyn Parry, tua'r cyfnod ysgrifennodd ein dewis-drama ni wedi bod yn athro yn eu hen ysgol hwy, Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Yna daeth syniad, Mr Trefnydd bach. Beth am alw'n Cwmni Drama ni yn Gwmni Drama Gyn-Ddisgyblion Dyffryn Ogwen!! Cytunwyd, ag es i ati'n syth i drio chysylltu â Owain Llywelyn; - "How-Get" arall (h.y. dyna beth mae pobl Bangor yn galw pobl Bethesda, Mr Trefnydd) - ond galwodd Eddie Thomas heibio, y dyn blewog hwnnw o Bontnewydd a mynnu mai fo oedd yn mynd i ddysgu'r llinell, ddeu-air allweddol yn y ddrama.

"Ond elli di ddim Eddie bach", medda finna, "does gen ti ddim cysylltiad ag Ysgol Dyffryn Ogwen!"

"Oes tad, man," medde yntau,"ro'n i'n arfer gwerthu ice cream tu allan i'r ysgol bob haf!"

"Grêt! Bodlon?"

"Bodlon", medda finnau, "ond mae un dyn bach ar ôl, Houdini a minne ...."-

- Oh! esgusodwch fi Mr Trefnydd bach mae geiriau'r ddrama'n aros yn y côf wyddoch chi. -

Ie, fel o'n i'n dweud, un dyn bach ar ôl ag yntau i fod yn ddeheuwr, cyhyrog, cadarn, "Mentioned in Dispatches deirgwaith, mewn troedfedd o gael y V.C. fwy nag unwaith..."

Gredach chi, Mr Trefnydd imi fod ar y ffôn efo bron pob Deheuwr Cymraeg ei iaith yn yr ardal 'ma, heb lwyddiant! Be wnawn ni? Wel, gorfod imi droi at y pumed Gogleddwr dawnus yn ein cwmni ni sef Eurof James. Ond oh! doedd ganddoyntau ddim cysylltiad â Bethesda a'i hysgol, yn nagoedd?

Nagoedd?

Oedd!

"Dwi'n nabod Les Rachub yn dda" medda Eurof, oedd ei enw 'o ar y gofrestr yn Nyffryn Ogwen!..., ag felly y bu. Cast cyflawn o bum Gogleddwr.

Ond da' chi'n gweld barchus Drefnydd nid dyma'r cyfan!

Troi i mewn i'r neuadd neithiwr a chlywed yr enw hudolus Bethesda ar dafodau cyn gymaint o'n hadnabod ni. Gredwch chi inni glywed y Dr Meredydd Evans yn rhannu cyfrinach, iddo bron â phriodi merch o Fethesda. Yna Mrs Eidra Jarman - hithau'n hel atgofion am fro ei mebyd - Bethesda! Ac yna i goroni'r cyfan Mr Trefnydd clywed fod Mr Colin Williams o'r Creiglau eisoes wedi pacio'i ges i adael am Fethesda y bore Sadwrn canlynol!!!

Wel, Mr Trefnydd bach, onid yw synnwyr cyffredin yn dweud y dylid all-fedyddio'r Ŵyl Ddrama nesaf yn "GŴYL DDRAMA 'PESDA!"

Yr eiddoch yn gywir,

Howget.

O.N. Rhag ofn imi anghofio dweud wrthach chi, Mr Trefnydd Bach, mae Les Rachub wedi cytuno eisoes i feirniadu flwyddyn nesaf!

Ydach chi'n adnabod rhywun o'r cast ysgol ifanc yma? ⟶

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
CASNEWYDD
30 Gorffennaf – 6 Awst, 1988

DYDDIAD CAU
CYSTADLAETHAU ACTIO

RHIF 47 Cyfansoddi a Llwyfannu Rifiw a
RHIF 48 Actio Drama Fer
CHWEFROR 1 1988

Am fanylion pellach cysylltwch â:
J. Idris Evans, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf, Rhodfa'r Brenin,
Casnewydd, Gwent, NP9 1EX. Ffôn 0633 54907

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| F | ff | A | U | |
| | | | | R |
| P | L | | N | |
| | | A | | T |

NADOLIG LLAWEN i chi i gyd

Gobeithio y cewch
Nadolig wrth eich bodd



Fedrwch chi ddod o hyd i eiriau ynglŷn â'r Nadolig yn y sgwariau hyn?
Mae yna 12 i gyd.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| rh | w | i | l | o | r | s | a | ie | n | u | c | l |
| u | c | e | l | y | n | l | i | l | p | a | n | i |
| b | a | dd | h | l | ll | w | t | o | s | d | b | a |
| a | n | f | p | d | b | e | i | d | t | a | a | m |
| n | rh | ch | w | c | s | a | n | t | a | i | n | ll |
| c | e | r | d | i | a | u | s | g | a | n | w | e |
| l | g | a | i | m | d | i | e | t | w | r | c | i |
| o | e | s | n | a | d | o | l | i | g | u | o | f |
| u | ch | e | l | w | y | dd | o | e | n | dd | r | c |
| ff | r | f | b | t | e | g | a | n | rh | a | w | t |

Beth am liwio'r
llun o'r doethion?

Cofiwch eu liwio'n lliwgar






## Cartŵn *GER*

# CYLCHGRAWN NEWYDD

Adran y Cylchgronau
Swyddfa'r Urdd
ABERYSTWYTH
Dyfed

Ffon: 0970 3744/5

Annwyl Ddarllenwyr,

Llythyr atoch chi, rieni plant ysgolion cynradd yw hwn yn bennaf.

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'n siwr, daeth rhifyn olaf Cymru'rPlant a Deryn allan o'r wasg. Yn eu lle, mae Urdd Gobaith Cymru yn cyhoeddi cylchgrawn newydd sbon danlll! CIP fydd enw'r cylchgrawn a bydd y rhifyn cyntaf yn ymddangos ar Ragfyr 1af.

Beth am gymryd CIPolwg ar ei gynnwys? Bydd rhai o hen ffefrynnau Deryn yn ymddangos ynddo e.e. Cadwgan a Mari Mwclls, a chaiff darllenwyr Cymru'r Plant barhau i wenu gyda Dant Melys Llew! Bydd storiau am gymerlad bach newydd o'r enw Gloyn - sydd yn byw mewn tegell ar waelod yr ardd - i'r plant ieuengaf, tra bydd awduron enwog fel Elfyn Pritchard, Irma Chilton, Selwyn Lloyd, Doreen Wynne, Elgan Davies ac eraill, yn sgrifennu storiau anturus ac arswydus i'r plant hŷn!

Bydd ynddo hanesion a lluniau o fyd y ser (chwaraeon, pop, a theledu), ffeithiau diddorol a chyfle i'r darllenwyr eu hunain i ddatrys problemau dyrys fydd yn wynebu'r ditectif C.I. Prys a'i bartner! Bydd y naturiaethwr Huw John Hughes yn rhoi CIPdrem ar fyd natur gyda dwy dudalen ddiddorol yn llawn lluniau, ffeithiau a chystadleuaeth bob mis.

Ac o son am gystadleuaeth - bydd dwy gystadleuaeth fawr yn CIP eleni. Bydd y cylchgrawn yn cael ei lansio gyda chystadleuaeth Tidli Wincs i holl ysgolion cynradd ac adrannau pentref, a'r 2 enillydd yn y prawf terfynol yn derbyn gwerth £15 o ddillad chwaraeon. Yn y gystadleuaeth fawr arall bydd cyfle i ysgol o'r Gogledd ennill trip i Sw Bae Colwyn, ac ysgol o'r De i ennill trip i Sain Ffagan! Mae'r manylion i gyd yn CIP mis Rhagfyr!

Tipyn o ddirgelwch i ni fydd y ddwy dudalen Clecs Cip! Y plant eu hunain ŵyr am y 2 dudalen yma achos dyma'u cyfle i sgrifennu llythyrau i'r cylchgrawn, anfon lluniau a hanesion diddorol atom, ac os oes plentyn dewr yn eu mysg caiff le ar y dudalen yma.

Bydd CIP mis Rhagfyr yn rhifyn arbennig gyda phoster lliw o.....?!. anrheg, a 4 tudalen ychwanegol. Fel pob rhifyn arall o'r cylchgrawn bydd wyth tudalen llawn lliw ynddo a bydd yn costio 50 ceinlog bob mis.

Mae'n debyg, erbyn hyn, eich bod i gyd yn "awchus i ddarllen y cylchgrawn newydd" (fel dywedodd un bachgen bach wrthym mewn llythyr yn ddiweddar). Ond pa mor awchus bynnag ydych i weld y cylchgrawn gwych, lliwgar yma - cofiwch mai cylchgrawn i'ch plant ydyw a hwy ddylai gael CIPolwg arno gyntaf! Gall eich plant ei archebu drwy adran yr Urdd, neu anfonwch atom ni yma i Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

Yn gywir,

Gwyneth Hunkin a Carwen Vaughan
(Golygyddion)

# BYWYD
gan
Tom Dom

## HÊD SIÔN CORN AR GAWS LLYFFANT

Sut hoffech gael carden Nadolig yn dwyn llun caws llyffant? Yng nghanol Ewrop byddai hynny yn debygol iawn ac i'r fan honno yr awn ni am ein adroddiad canol-gaeaf eleni.

Gwyddys bod ceirw sydd yn bwyta cen hefyd yn bwyta caws llyffant. Mae'r caws llyffant coch a gwyn yn peri i'r ceirw feddwi yn ofnadwy ac os bwyteir cig y ceirw hynny, yna meddwir y bobl hefyd. Mae pobl sydd o dan ddylanwad cyffur y caws llyffant sef IBOTENIC ACID a MUSCIMOLE yn tybio hyd yn oed bod ceirw yn medru hedfan drwy'r awyr. Yn yr hên ddyddiau roedd y pobl Ffinno-Ugric o Seiberia yn byw mewn tai crwn - y Yurt, ac roedd gan y tai hyn dyllau crwn yn eu toi i adael i'r mŵg fynd allan. Roedd ganddynt hefyd bolion bedw i ddal y toi rhag syrthio.

Or gore te, beth sydd gan y ffeithlau hyn i wneud â Sion Corn? Wel, yn yr hen ddyddiau hynny arferai'r dyn hysbys - sef y shaman, ddisgyn drwy'r simne, perfformio ei seremoniau i'r trigolion meddwol, a wedyn diflannu lan trwy dwll y mŵg - pwff!

Sylwch pa mor debyg mae'r cymhariaethau hyn gyda'r boi sydd yn dod rownd i'n tŷ ni bob blwyddyn. Yn gyntaf mae S. Corn yn gwisgo coch a gwyn - yr un lliw a'r caws llyffant. Yn ail, mae'n cael mynediad i'r tŷ drwy'r simne, ac yn drydedd mae ganddo ef hefyd geirw sy'n medru hedfan trwy'r awyr. Mae hefyd tuedd i orfoleddu a meddwi - nid effaith caws llyffant ond effaith rhyw ffwng arall - berem.



# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD TAF ELAI 1991

Penderfynodd Pwyllgor Llywio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf-Elái, 1991 estyn gwahoddiad i'r canlynol weithredu fel aelodau o bwyllgor gwaith yr Eisteddfod:

| *Pwyllgor* | *Cadeirydd* | *Is-gadeirydd* | *Ysgrifennydd* |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Gwaith | Merfyn Griffiths | John Rees<br>John A. Evans | Rowland Wynne |
| Adrodd, Drama a Siarad Cyhoeddus | John Owen | Eiry Rochford | Gareth Williams |
| Addysg Gorff-orol a Dawnsio Creadigol | Judith Davies | Peter Evans | Dewi Hughes |
| Canu Actol a Dawnsio Gwerin | Peter Davies | Meima Morse | Hefin Griffiths |
| Celf a Chrefft | Tom Vale | David James<br>Mair Hughes | Mostyn Davies |
| Cerddoriaeth | Euros Rhys Evans | Dorothy Todd | Gareth H. Evans |
| Cerdd Dant | Alwena Roberts | Llinos Swain | Loreen Williams |
| Dysgwyr | Sonia Luscombe | Elinor Triggs | Nia Williams |
| Gwyddoniaeth | I. Delme Bowen | Bobi Jones<br>Dafydd Jones | Iwan Griffiths |
| Llenydiaeth | Anna Jones | Geraint Hughes | Glenys M. Roberts |
| Maes a Phabell | E. Tudno Jones | John Pugh | Bryn Roberts |
| Cyhoeddusrwydd | Emlyn Davies | Gareth Hughes | Margaret Calvert |
| Cyllid | Guto Roberts | Eddie Rae<br>John Williams | Allan James |
| Stiwardio | Eurof James | Gwenllian Jenkins | W. Wyn George |
| Trafnidiaeth | Rhodri G. Jones | Elwyn Hughes | Robin Bateman |
| Llety a Chroeso | John Williams | Mair Davies<br>Ifor James | Alison Bowden |

Bydd y swyddogion hyn yn cwrdd yn y flwyddyn newydd, a'u tasg gyntaf fydd cyfethol aelodau i'r gwahanol bwyllgorau, gan roi ystyriaeth i ddymuniadau'r sawl a lanwodd ffurflenni yn y cyfarfod cyhoeddus ym mis Mehefin. Bydd gan y pwyllgor gwaith, a fydd yn cynnwys holl swyddogion yr is-bwyllgorau, yr hawl i gyfethol aelodau ychwanegol.

# NEWYDDION O'R URDD

TREFNYDD NEWYDD I'R URDD YM MORGANNWG GANOL

Cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod wedi penodi Donna Aeron i olynu Dyfrig Morgan fel Trefnydd yr Urdd ym Morgannwg Ganol.

IS-GADEIRYDD

Llongyfarchiadau i John Rees, prifathro Ysgol Gynradd Heol y Celyn, ar gael ei ethol yn un o is-gadeiryddion Urdd Gobaith Cymru.

## Swydd Ran-amser

- yn addas iawn i berson ifanc lleol gyda diddordeb mewn gwyddoniaeth neu beirianneg.

Mae cwmni newydd lleol yn edrych am berson i gynorthwyo gyda chynhyrchu.

Byddai profiad o waith technegol (yn arbennig gwaith metel) o werth, ond nid yn hanfodol. Fe allai'r swydd ddatblygu yn amser llawn pe byddai'r cynnyrch yn llwyddo. Am wybodaeth bellach:
Ffoniwch Llantrisant 228196 (ar ôl 6pm).

# HELPU MERCH YN INDIA

Enw cyfarwydd iawn yn Ysgol Gymraeg Gartholwg yw Vijaya Kumari. Mae Vijaya, sy'n dair ar ddeg oed, yn byw yn yr India, ond wedi ei mabwysiadu ddeunaw mis yn ôl gan blant Gartholwg. Casglwyd toreth o wybodaeth am Vijaya a'i theulu ac am fywyd yn yr India trwy'r llythyru rheolaidd rhwng Gartholwg a'r Sarthi Ashram School yn yr India, a chaiff y plant a'r rhieni foddhad mawr o wybod fod eu rhoddion ariannol yn sicrhau parhad a llwyddiant addysgol i Vijaya.

# ENNILLYDD ANGHYFFREDIN

Pan osododd Cwmni Adeiladu Halifax ym Mhontypridd gystadleuaeth "Dyfeisio Deinosor", penderfynodd Nicola Jenkins o Ysgol Gymraeg Gartholwg, ei bod am roi cynnig arni. Creodd ei deinosor gymaint o argraff fel yr enillodd y wobr gyntaf. Dechrau mis Tachwedd yma, bydd y deinasor digri yn ymuno â'r arddangosfa ddeinasoriaid yng Nghaerdydd, ac ar Ragfyr y 5ed, bydd y deinasor digri yn cynrychioli Pontypridd mewn cystadleuaeth cenedlaethol. Llongyfarchiadau pawb yng Ngartholwg, i Nicola.

# ATGOFION O'R DATHLU

1. Rwy'n cofio'r noson olaf. Gan fod pob noson wedi mynd yn dda, roedd pob un yn meddwl bod y noson olaf yn mynd i fod yn hynod. Roedd yr hanner cyntaf yn eitha da, ond roedd yr ail yn waeth. Gan fod y cast yn gwisgo llawer o ddillad roeddan nhw'n boeth, ond ar y noson olaf, roedd y rhan fwyaf yn dal i sefyll. Y scaffaldiau oedd un o'r pethau gorau, oherwydd ar ôl wyth noson, doedden nhw ddim wedi cwympo lawr!! Roedd e'n waith caled ond yn y diwedd mwynhaodd pawb.

Gethin Jones

2. Y noson olaf sy'n aros yn fy nghof mwyaf. Roedd popeth yn mynd yn dda, a phawb yn mwynhau, yn enwedig y cast. Roedd Daniel Evans yn rhoi perfformiad ei fywyd ac roedd e'n anodd i mi gadw fy hun rhag chwerthin. Wrth ganu sylweddolais na fyddwn i'n eistedd ar y sgaffaldiau yn canu'r caneuon yma byth eto felly penderfynais byddai'n noson i'w chofio. Yn yr ail hanner, cynddisgyblion a oedd nawr yn actorion proffesiynol, oedd yn chwarae'r prif rannau, yn Penderyn, ac roedd y cast yn dysgu llawer wrth eu gwylio nhw. Yn 'Senghennydd' (Drama am y ddamwain waethaf erioed ym 1913) daeth dagrau i fy llygaid oherwydd roeddwn i'n gallu cydymdeimlo gyda'r gwragedd a gollodd perthnasau yn y ddinistr. Yn y gân olaf, cân dathlu penblwydd Rhydfelen yn 25 oed, llifodd y dagrau lawr fy ngwyneb, wrth sylweddoli bod popeth wedi bod.

Anwen Jones

3. Roedd hi'n ddydd lau yr ail ar hugain o Hydref - noson olaf 'Dyddiau Fu'.

Roedden ni yng nghanol y ddrama, roedd e'n mynd yn dda. Roedd e'n boeth iawn, ond wnaeth e ddim poeni'r cast na'r gynulleidfa, roeddem yn jolo gormod! Ar ddiwedd y ddrama a chan y dathlu dechreuodd pawb grio achos cynhyrchiad olaf Maria, Siarlot a Sharon oedd e, a fyddem ni ddim yn gwneud 'Dyddiau Fu' byth 'to!

Roedd e'n brofiad gwych, cafon ni hwyl, a'r peth safodd mas yn fy nghof i oedd Steps a'r cast yn canu 'Pedwar Cant tri deg a naw o goliars'. Roedd 'na awyrgylch od o gwmpas y lle. Pleser mawr gan y cast, oedd i weld Danny Grehan, Clair Stephens a Gareth Potter yn dod nol i'r ysgol i ddathlu y 25ain penblwydd a dangos eu ffyddlondeb i'r ysgol a roddodd ddechrau iddyn nhw.

Leanne Hardman

4. Roedd bod yn y cynhyrchiad 'Dyddiau Fu' yn brofiad gwych. Pawb yn dysgu geiriau y funud olaf, anghofio gwisgoedd, chwerthin ar yr actorion a boenai o achos bod Mr Owen mewn mŵd! Roedd y perfformiad cyntaf yn anniben - ni ddaeth neb mewn ar y cytganau, cwpwl yn anghofio geiriau, baneri coch yn syrthio o'r sgaffald. Ond erbyn y nos dechreuodd wella tipyn. Y prif beth sy'n sefyll mas o'r perfformiadau cyfan i fi oedd Maria Pride yn canu "Atgof" can allan o 'Senghenydd'. Dechreuodd bawb grio (gan gynnwys y cast). Rwy'n flin bod y cynhyrchiad wedi dod i ben, achos roedd e'n hwyl fawr a hoffwn 'i wneud e 'to.

Donna Jones

# RHYDFELEN

gan John Owen

Corrach yn mynd i'r ysgol fawr ym 1963, cyfandir i ffwrdd ym Mhontypridd. Prifathro cas yn rhoi'r gansen i fi yn nosbarth dau am ryw drosedd cwbl ddibwys, ym marn fy meddwl corrachaidd, a'r un prifathro, ddim cweit mor gâs, yn fy mhenodi'n athro yn Rhydfelen un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach. Bum yn rhan o Rydfelen, yn ddisgybl ac athro, ers un mlynedd ar hugain - amrantiad o amser yn ein proses gynhyrfus o adfer ein hiaith. Rwyf yn sicrach nawr nag erioed mai'r ysgolion yw'r cyfrwng pwysicaf i'r adferiad hwn, a geiriau Robert Powell ym Mhorthmadog fel her newydd pan ddywedodd mai o gartrefi di-Gymraeg y deuai y rhan helaethaf o siaradwyr Cymraeg y ganrif nesaf.

Dyna pam r'yn ni yma, dyna pam mae'r chwarter canrif nesaf yn Rhydfelen, os bydd rhagluniaeth yn garedig, yn fwy cynhyrfus hyd yn oed na'r un o fu. Nid siarad yn unig yw ein nod, ond newid pethau.

Rhai o gast 'Dyddiau Fu'

PEIDIWCH YFED A GYRRU
DROS Y NADOLIG

BETH AM DACSI NEU FWS?

CLAYTON JONES
PONTYPRIDD 407000, 404477

# ATGOFION AM DDYDDIAU CYNNAR YSGOL RHYDFELEN

Pan fo dyn yn cael cais am "atgofion am ddyddiau cynnar..." mae'n arwydd digon clir ei fod yn mhell wedi'r canol oed, ond rhag ofn i ddarllenwyr gael cam-syniad petrusaf i ychwanegu mai prifathro ifanc iawn oedd wrth y llyw pan agorodd yr ysgol ar 3 Medi 1962. Ond mae pum-mlynedd-ar-hugain yn chwarter canrif (ac yn swnio'n waeth o'i ddisgrifio felly!) ac mae perygl mawr i'r cof chwarae triciau neu i fod yn ddewisol ei negeseuon wrth i mi geisio edrych yn ôl dros gyfnod mor sylweddol?

I brocio'r cof, ac i'm rhwystro rhag rhamantu, dyma ofyn i'r Prifathro presennol am gael cip ar y "llyfr log" - y digwyddiadur swyddogol a geir ym mhob ysgol. Dyma ysgrifennais ynddo ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn hanes Ysgol Rhydfelen.

"Diwrnod olaf blwyddyn na welir ei thebyg eto. Teimlo'n elthaf bodlon o waith y flwyddyn. Brwdfrydedd mawr o bob cyfeiriad."
(12 Gorffennaf 1963)

Ie, 'rwy'n credu mai brwdfrydedd yw'r gair sy'n cyfleu'n gywir fy atgofion o'r dyddiau cynnar - brwdfrydedd a phenderfyniad hefyd. Bu'n frwydr faith a phenderfynol gan garfan fach o rieni brwdfrydig i gael Awdurdod Addysg Morgannwg i agor yr ysgol ond pan wireddwyd eu breuddwydion ym Medi 1962 yr oedd eu llawenydd yn gor-llifo. Er mai dim ond 80 disgybl oedd yno ar y cychwyn, er mai hen adeilad pren (oedd wedi ei baentio yn ddigon o ryfeddod) oedd yn gartref i'r ysgol, er nad oedd yr un gwerslyfr Cymraeg ar gael (na'r un llyfr o unrhyw fath ar y diwrnod cyntaf), er bod gwrthwynebiad lleol i'r ysgol, ni allem fel staff (4 amser-llawn a 5 rhan-amser) ond teimlo'n falch ein bod yn cael y fath fraint o wireddu breuddwydion brwydfrydigion Morgannwg.

Bu'n brofiad amheuthun i fod yn rhan o'r "antur" o'r cychwyn - agor cwys newydd ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Daw llu o "ddigwyddiadau cyntaf" i'r cof: penderfynu gwisg yr ysgol, bathodyn yr ysgol, arwyddair yr ysgol; cyfarfod y rhieni brwd cyn agor yr ysgol (pa gem fyddai'r Gogleddwr yn ei hyrwyddo?); fy nghyfarfod nerfus cyntaf â'm cyd-athrawon nerfusach; sefydlu Cymdeithas Rhieni a phanelau cyswllt â'r ysgolion cynradd mewn iaith a mathemateg; y gwasanaeth boreuol cyntaf a'r 80 disgybl yn canu fel "môr o leisiau"; yr eisteddfod gyntaf a'r tri llys (a aethant yn chwech yn ddiweddarach) - Ifor Hael, Sycharth, Dinefwr - yn cystadlu fel petai eu bywydau yn dibynnu ar y canlyniad.

Ond erys un atgof yn gryfach na dim.

Yr oedd y rhieni yn gefn aruthrol i ni o'r diwrnod cyntaf. 'Roedd ganddynt ddiddordeb yn yr ysgol fel sefydliad a chymdeithas yn ogystal ag yn eu plant eu hunain. Er fod dysgu pynciau'r ysgol uwchradd drwy'r Gymraeg yn brofiad newydd hollol, 'doedd dim pryderon, dim beirniadaeth; dim ond gofyn beth allent wneud i helpu. Yr help mwyaf oedd eu ffydd ynddom fel athrawon.

Er fod rhai o'r plant yn teithio hyd at ddeg milltir ar hugain bob ffordd, trwy gydweithrediad rhieni a chymwynasgarwch athrawon llwyddwyd i gynnal bywyd cymdeithasol llawn ar gyfer y plant a'u rhieni.

O gofio nad oedd yr un gwerslyfr Cymraeg ar y farchnad - ddim hyn yn oed geiriaduron Cymraeg - Ffrangeg, Cymraeg - Lladin; o gofio am alwadau ychwanegol bywyd cymdeithasol cyfoethog yr ysgol, gyda'r nos a bwrw'r Suliau; o gofio bod nifer o'r athrawon yn gyfrifol am ddau neu dri pwnc nac erioed wedi dysgu drwy'r Gymraeg o'r blaen, gallaf ddweud yn ddibetrus na welais erioed well eslampl o wasanaeth yr all fllltir. Byddai'r to cyntaf hyn o athrawon a'r rhai a'u dilynodd wedi gwario eu 1265 awr mewn tymor!

Proffeslynoldeb ac ymgysegriad - hwnna ydio!

Y mae'r hyn sydd wedi digwydd mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru yn wyrthiol ac yn eslampl i bawb led-led Cymru. Yn bendifaddau yr oedd agor Ysgol Rhydfelen ar 3 Medi 1962 yn ddigwyddiad o bwys yn stori ryfeddol adfywiad y Gymraeg ym Morgannwg.

Gwilym E Humphreys
Prifathro 1962-1975

**LLÊN GYFOES Y Lolfa**

'Ysgiyfaeth' gan Harri Pritchard Jones yw'r nofel gyntaf mewn cyfres newydd sbon o'r enw Llên Gyfoes a gyhoeddir gan y Lolfa.

Stori garu sydd yma rhwng rhyw hanner Cymro a Gwyddeles danbaid, yng nghanol berw drysiyd, gwaedlyd Gogledd Iwerddon. Llyfr ardderchog i'w roi yn Anrheg Nadolig. Mae'n Golygydd Erthyglau wedi mwynhau bob munud ohonno. Pris £2.95.

# CREFFTWRAIG

Fe'i gwelaf yn awr, yn plygu o flaen y gist fawr dan y ffenestr yn yr hen gartref, wrthi'n turio am drugareddau i'w hel at ei gilydd i wneud coban newydd i Jen, y chwaer fach.

"Dal yn llonydd y merch i, imi gael gweld 'neith hwn y tro. O g'neith. G'nawn goban berta'r fro iti."

Sawl gwaith y gwelais i hi'n bwrw golwg lled feirniadol dros ddilledyn a gynigid iddi gan berthynas mwy cefnog, a'i dderbyn gyda diolch?

"Ia, diolch ichi. 'Mond imi droi fo i fyny 'sa'n lawn at yr hen hogyn 'ma. Diolch yn fowr ichi."

Eisteddai wrth y tan a'r offer angenrheidiol yn ei hamgylchynu, yn weill a nodwyddau, siswrn a phin. Gwnai'n sicr na wastreffid dim, a chyn gynted ag y tyfai'r plentyn lleiaf allan o sgert neu ffrog, âi pob dim i berfeddion y gist fawr i'w atgyfodi wedyn yn grys, neu flows, neu ddilledyn i ddoli.

Hwyl beunos i'r plant oedd i un ddai rhyw siwmper nad oedd mwyach mo'i helsiau, a'r llall yn ei datgymalu fesul rhes gan ail-rollan y gwlân yn belen daclus at wasanaeth yr un nesaf.

A hithau, trwy'r nosweithiau hirion yn suo-ganu i'w breuddwydion am fywyd gwell, i gyfeilliant cerddoriaeth swn y gwelli, a'r peiriant pwytho.

Ys gwn i, a fyddai plant rhyw gyfansoddwr mawr yn cymryd yn ganiataol ei gampweithiau ef? A fyddent yn gweld gwerth gwaith ei awen fel y'i gwelid gan y byd tu allan i furiau neuadd gyngerdd ei gartref? Neu a fyddent yn gweld nodyn ar bapur fel y gwelsom ninnau bwyth mewn blows, yn beth pob dydd, rhy gyffredin i'w werthfawrogi?

Ai allan o'r hen gynllo, y daeth i'w phen i gasglu tafliadau lledr a'u "crochet" at ei gilydd i greu baglau clytwaith? Ai oherwydd y darnau byrion o wlan a oedd bob amser o gwmpas ei thy y crewyd y pypedau bysedd, bychain, a osodai ar bren Nadolig, carbord?

Ie wir, fel hyn yr esbonir y pethau hyn, bid sicr. Ond sut, sut y gall dynes na fedrai erioed dynnu llun â phensil ar bapur, beri i lunlau cywrain cain dyfu o dan weill, heb batrwm yn y byd?

O gwmpas fy ngwasg i yn awr, y mae llewod yn rhuthro. Ac ar frest fy merch fach, sglo sydd ymlaen, a'r haul yn pefrio ar fynyddoedd cyfoethog dan eira: golygfa na welwyd erioed mo'i thebyg gan yr artist - ond yn ei dychymyg byw na phylwyd gan y dyddiau blin.

Fe'i gwelaf yn awr, yn helaethach ei gwasg, a'r arian wedi disodli'r glo yn ei gwallt. Y mae'n brinach ei gwallt a'i phryder.

Eistedda tu ôl i'w stondin yn y ffair grefftau wedi'i hamgylchynu â chynnyrch ei dawn a'i dwylo. Lledaena ei llygaid mewn syndod bob tro y clodforir ei gwaith, a'i brynu.

Nid ymdeimla'r genhedlaeth gyfoethog hon a fynycha ei ffeiriau a'r cynni a roddodd fod i'w chrefft. Ni welant hwy hi'n plygu o flaen y gist fawr o dan y ffenestr yn yr hen gartref.

Iddynt hwy mae hi'n grefftwraig: imi mae hin fam.

P BRADLEY

# AR GOLL YN LLANTRISANT!

Dyw'r Swyddfa Bost ddim yn gwybod ble mae Llantrisant! Dychwelwyd yr amlen uchod yn ôl - drwy amryfal ffyrdd - i'n gohebydd.

A fydd y Swyddfa Bost yn rhoi'r bai ar Gyngor Taf-Elai am nad oes enw Cymraeg ar y Ganolfan?

# CÂN NEWYDD

Yn gosod allan fy ngofid a'm poen, wrth fy nghael fy hunan, trwy drwsgwl ffyrdd yn

YUPPY ANNEDWYDD

Ar y dôn "Penbanc"

1 Rhowch glust i wrando hanes, Ar fy ngair, ar fy ngair,
Gan un sy 'nawr dan ormes, Ar fy ngair.
I'r sawl sydd yn ymboeni
I geisio bod yn "Yuppy",
Gochelwch rhag drygioni! Ar fy ngair, ar fy ngair,
Neu ffawd fydd yn fflangellu, Ar fy ngair.

2 O'r dydd y ces i ngeni, Medden nhw.....
Yn ellyn fy rhieni, Medden nhw.
Caed bachgen bach golygus,
Yn gwris, a gwen a "napples",
A minnau mor ddoailus! Medden nhw.....
O diawch, ond o'n nhw'n lwcus! Medden nhw.

3 Fe'n codwyd i yn Dori, Fel ynhw....
A'r byd yn eiddo imi, Fel ynhw.
Ond ynof 'roedd yn llosgi
Rhyw awydd am ddyrchafu
Yn un o "Yupples" Magi, Fel ynhw....
A'r hawl gan Ddduw i bechu, Fel ynhw.

4 Fel aelod tŷ'r Cyffredin, Fel ynhw.....
'Roedd rhaid gwenalu tipyn, Fel ynhw.
'Roedd rhaid rhoi sws i'r babis,
A chusan i "old ladies"
Ond byddwn yn fwy mentrus, Fel ynhw.....
'Dag ambell giegen slapus, Fel ynhw.

5 Fy hobi ydi gyrru, Medden nhw.....
O gylch o dan neu drwyddi, Medden nhw.
Mewn cefen car 'rwy'n eflach
Ar gefen beic 'rwy'n saffach
Ond 'tae hi'n mynd yn ffradach, Medden nhw.....
Mi fydde tanc yn gallach, Medden nhw.

6 Cymerais wythnos gyfan, Ar fy ngair.....
I ddysgu bod yn Welshman, Ar fy ngair.
Wrth ddrillo yn ddiderfyn
Fe wellais bob yn dipyn
Dan nawdd rhyw Gymry dygyn. Ar fy ngair.....
Mi ddysga rheini rhywun, Ar fy ngair.

7 Fe'm galwyd i yn glamstar, Medden nhw.....
Ar "stocks and shares", mor glyfar! Medden nhw.
Wrth geisio gweud fy ngore
Fe dorrais 'rholi reole
Wrth sharlo mas pob dime, Medden nhw.....
Rhwng minne, minne, a minne. Medden nhw.

8 Ond 'nawr 'rwy'n gorfod tewi, Gwaetha'r modd.....
Daeth dlwedd ar fy stori, Gwaetha'r modd.
Mae'n lwc i wedi pallu,
'Rwy'n clywed tro'r allweddi
Mae 'nghell i'n dechrau t'wyllu, Gwaetha'r modd..
Cyflawnder sydd yn frechu, Gwaetha'r modd.

Dafydd Idris a'i cant.

Cân a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer Cystadleuaeth y Baledwr yn Eisteddfod Bro Madog eleni.

# ARWYDDION FFYRDD DWYIEITHOG YM MORGANNWG GANOL

Fel y gŵyr rhai mae'n siwr, mae Cymdeithas yr Iaith wedi tynnu ein sylw yn ddiweddar at y diffyg dwy-ieithrwydd ar arwyddion ffyrdd ym Morgannwg Ganol. Daeth yr ymgyrchu i'r amlwg yn ystod yr Eisteddfod ym Merthyr eleni, pan dynnwyd arwydd oddi ar ffordd osgoi Aberdar gan Gymdeithas yr Iaith, a'i gyflwyno ym mhabell arddangosfa'r Cyngor Sir ar y maes. Yno, galwodd Tony Schiavone y cyngor yn rhagrithiol eu hagwedd tua'r Gymraeg, a'u bod yn ddigon bodlon derbyn clod wrth hybu'r Gymraeg yn ystod un wythnos yn yr Eisteddfod. Dywedodd "Dim ond y dechrau ydy hyn. Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Sir Morgannwg Ganol yn gofyn i drafod newid eu polisiau."

Beth yw polisiau'r cyngor dros arwyddion dwy ieithog? Derbyniodd y Gymdeithas daflen ganddynt yn son am eu 'polisiau', yn uniaith Saesneg - "Since 1975 the County Council has considered the matter of bilingual road signs on a number of occasions and the present policy, decided some years ago, is to provide signs in English only on Country roads, but, when finance is available a policy of bilingual signs will be adopted with the English version appearing first and the Welsh version underneath, unless the name in common use is Welsh, when that is the only name that will appear. As full bilingual policy would require a considerable expenditure an additional staff and material such a policy cannot be justified for so long as there is relatively small demand for bilingualism to be introduced throughout the county council's administration".

Mae'r gosodiadau yna yn tanlinellu yn holiol amlwg y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith eilradd, ac hefyd, sut y mae hi'n cael ei hisraddio, a'i rhoi i'r naill ochor ganddynt.

Mae'r Gymdeithas yn bwriadu mynd ymlaen efo'u hymgyrchu. Anfonwyd llythyrau at y Cyngor gan y Gymdeithas, a bu'n rhaid aros dros chwech wythnos nes cael unrhyw fath o gydnabyddiaeth o'r llythyr yn cyrraedd. Bu'n rhaid i aelod fynd yn uniongyrchol at y cyngor ei hun i fynnu'r ymateb pitw.

Sonlodd un cynghorydd wrth Gymdeithas yr Iaith Taf-Elai, fel yr oedd rhai aelodau ar y cyngor yn gwbl wrth-Gymreig, a phetai Cymdeithas yr Iaith yn griw o bobl croen-ddu, y buasent wedi cael eu harwyddion ffyrdd, gan fod ofn cael eu galw'n hiliol gan y cyngor, ond nad oeddent yn ei chyfri hi'n ddyletswydd arnynt rhoi arwyddion Cymraeg yng Nghymru.

Mae'r cyngor sydd gennym yn meddwl mai addysg, ac addysg yn unig y mae'n rhaid ei ddarparu'n Gymraeg, ac maent yn dangos difaterwch a diffyg brwdfrydedd tuag at unrhyw agwedd hanfodol arall, er mwyn sicrhau tyfiant yr iaith yn ein hardal.

BRANWEN MILES

DAVISON
ARGRAFFWYR

LLYFRAU A LLYFRYNNAU
PAPURAU NEWYDD A
CHYLCHGRONAU
TAFLENNI
PAPUR YSGRIFENNU
MASNACHOL
3, JAMES PLACE,
TREFOREST.
PONTYPRIDD 400585.

# DIOLCHGARWCH YN YSGOL GYFUN LLANHARI

Ar fore Mercher Hydref 21ain cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Gyfun Llanhari. Yr oedd y Neuadd Chwaraeon yn llawn o blant ac athrawon. Ar ôl estyn gair o groeso i bawb; cyhoeddodd Mr Vaughan Salisbury yr emyn cyntaf "Diolchwn i Ti Nefol Dad", ac yn dilyn cafwyd darlleniad o efengyl Saint Mathew gan Huw Griffiths Prif Swyddog yr ysgol.

Ar ôl eitem gan gôr Dosbarth 1-3 yn canu "Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu", cyflwynwyd offrymau o ffrwythau a blodau gan gynrychiolwyr Blwyddyn 1 a 2. Yna rhoddwyd hen fendith Wyddelig gan Rebeca Jones y Prif Swyddog. Cyn anerchiad y Parchedig Haydn Thomas cafwyd eitem gan Anwen Carlisle yn canu "Y truan dros y lli" a chyflwyniad dramatig "Henaint" gan ddosbarth IV.

Yn ei anerchiad cyfeiriodd y Parchedig Haydn Thomas at Ddameg y Samariad Trugarog. Dywedodd fod yn rhaid i gymdeithas heddiw edrych ar ôl yn unigolyn, boed yn ifanc neu'n hen, ac y mae'n ddyletswydd arnom fel cenhedlaeth ifanc i edrych ar ôl hen bobl a gwasanaethu pob rhan o gymdeithas yn gyffredinol. Grisiau naturiol yw camau bywyd, ac y mae pawb yn heneiddio, ond er mynd yn hen mae gan yr henoed le pwysig mewn cymdeithas. Rhaid peidio a'u trin yn wahanol ond rhoi lle anrhydeddus a theilwng iddynt. Ein braint ni fel cymdeithas yw cofio am eu cyfraniad ar hyd eu hoes, ac i'w cynorthwyo i chwarae eu rhan yn y gymdeithas sydd ohoni.

Traddodwyd gweddi gan Mrs Rhian Denby Jones a gorffenwyd y gwasanaeth trwy ganu'r emyn "Rho i mi nerth i wneud fy rhan". Ar ôl y weddi cyflwynodd Mr Merfyn Griffiths siec i fudiad yr Henoed yng Nghymru trwy law y Parchedig Haydn Thomas, Ysgrifennydd y Mudiad.

Ar wahoddiad y Parch. Glyn Williams, Ficer Llanhari, aeth disgyblion y chweched dosbarth i ymuno â chynulleidfa Eglwys Llanhari i ddathlu Gŵyl Ddiolchgarawch ac i wrando ar anerchiad y Parchedicaf G. Noakes - Archesgob Cymru. Cafwyd anerchiad grymus a hynod bwrpasol gan yr Archesgob yn sellledig ar lachau'r Gwahanglwyfion.

Yn ystod y degawd diwethaf dyllfodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Tâf i Odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau peli-gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint yn mynnu bod yn Garath-ion?

A OES HEDDWCH?

Pam ymfudais i Daf-Elai ym 1984 roeddwn union hanner ffordd at oed yr addewid ac roedd hi'n hen bryd i mi arafu neu weiwn i fawr o'r hanner arall. Canfod rhyw ddedwydd lonydd le oedd fy mwriad, ond pan glywodd fy nghyfeillion Chwith-ig yn y ddinas fy mod ar fin mentro tua'r cyrion ni chefais un dim ond sen am fisoedd. Pwy adael y proletariat brwysg a hwythau 'Halfway' at y Chwyldro? I ba grach-ghetto yn y maestrefi yr awn i felly? PenTurk, Ribena ynteu Gwaelod yr Ardd? Pan gyfaddefir y gwir yr oeddynt yn deall yn iawn. I ba le wedi'r cwbwl yr âi cachwr ond i Waelod yr Ardd?

Ond nid Philistiaid mo 'nghyfeillion, a bûm wrthi fel coblyn yn rhestru rhagoriaethau diwylliannol ac anghydffurfiol y pentre bach fel na phigent arnaf mor enbyd. Ac yn wir i chi buan y peidiodd y plagio pan glywsant mai mewn tŷ teras y bwriadwn drigo ac y byddai gennyf lowr ar streic am y naill bared â mi a brdor lân ei Gwenhwyseg am y llall. Euthum innau i hwyl: "Dewch efo mi i'r datws yn y cefn hogia a mi a ddisgrifiaf i chwi holl ogoniant diwylliannol y panorama sy'n ymledu o'ch blaen...."

Welwch chi gopa'r Garth acw? Dyna lle bu'r 'Cowbridge Volunteers' yn gwasgaru Gorsedd Jacobinaidd lolo Morgannwg gynt. Welwch chi balas Bryn Tafa lawr fan 'cw? Dyna lle bu'r Athro G.J. Williams yn sgwennu 'Traddodiad Llenyddol Morgannwg' yn ei amser sbâr. Dychmygwch Saunders yn ei bromio hi lawr Heol Ddu i weld ei gyfaill - dychmygwch y crêt o glaret yn y bŵt. Bu'r Mans acw wedyn yn gartref i R.G.Berry, dramodydd o Gog ddaeth lawr i chwilio am job ac aros am hanner can mlynedd. Arthur Miles yr ariunydd pia fan'cw wedyn a Chymry Cymraeg pia bob yn all dŷ ar hyd fan hyn... Allan yma yn y wlad argyhoeddwyd y bechgyn fod diwylliant yn wir yn tyfu ar goed, ac roeddwn innau bellach y tu hwnt i feirniadaeth.

Ond peth peryg ar y naw yw pregethu'n rhy uchel ar lwyfan eich gardd datws. Ymlaciwn yn nyfnder y soffa un noswaith o Fedi gan ddrachtio rhywfaint o'r gwin adawodd Saunders pan glywais ryw guro wrth y porth. Wele wraig. Roedd si ar led fy mod yn Gymro hoff o'r 'Pethe'. Sut byswn i'n licio rhedeg cangen o'r Urdd yn y pentre? Meddyliais am funud mai tynnu fy nghoes yr ydoedd. Bu deng mlynedd a mwy ers i mi orfod trafferth egluro i neb nad yw 'Brest-Pen-Coed' yn rhan o fy repertoire. "Tyrd i Langrannog efo ni!" medda Gwilym wrtha i yn y 'Conway' tua 1973. "Gei di lot o hwyl sti!". Chwarae teg iddo derbyniodd Gwilym yn rasion fy mod yn cael digon o hwyl fel yr oedd hi. Cefais wared yn ebrwydd â'r Urddynes ar yr hiniog ond nid hyn ond dechrau gofidiau...

Yn ystod y misoedd a ddilynodd ni fu pall ar y gwahoddiadau, yr anogaethau ac yn wir yr hwrjio diwylliadol. Clwb y Dwrlyn? Gŵyl ddrama? Clwb y Bont? Oedfa'r bore? Cwrdd llenyddol? Swper haf yr Ysgol Sul? Twmpath Dawns? Ffair sborion? ffair haf y Mudiad meithrin? Gwrth-apartheid? Cronfa'r glowyr? Taith gerdded noddedig dros Mozambique?

Be sy haru mhw deudwch? Oes gan y bobl bach brysur yma unrhyw syniad o gwbwl pam y deuthum yma i fyw? Bûm yn feistr corn drwy gydol fy oes ar osgoi cyfarfodydd a gweithgareddau pwyllgorawl o unrhyw fath. Dwad yma i osgoi pwysau bywyd y ddinas wnes i ddim dwad i 'gwrdd' â gofid.

Yr unig gnociwr gafodd groeso brwd acw oedd cynrychiolydd C.N.D. Cymru. Wedi fy holi heibuion gallwn uniaethu'n llwyr â phobol a alwai eu hunain yn 'Grŵp Heddwch Gwaelod-y-Garth'. Ac i'r sawl sydd ar fwriad tarfu ar fy hedd o hyn allan ystyr 'ymfudo' i mi yw myned yn fud. Iawn?

Dafydd Huws.

Ar y chwith - Dafydd Huws

**Annwyl Olygydd**

**Mae Panel Llenyddiaeth Plant Cyngor y Celfyddydau wedi noddi nifer o gyrsiau i awduron plant dros y blynyddoedd. Roedd rhai yn ymwneud ag ysgrifennu i blant yn gyffredinol, a bu eraill, yn fwy diweddar, yn gyfrwng sefydlu cyfresi newydd fel Cyfres y Corryn a chyfres o nofelau i'r arddegau. Amrywient mewn hyd - o ddiwrnod i benwythnos gyfan - a chynhaliwyd y rhan fwyaf mewn gwesty yn ystod misoedd y gaeaf. Y nod oedd rhoi anogaeth ac arweiniad, darparu cyfle i bobl drafod â'i gilydd ac â golygydd, ac yn bennaf oll i gael llonydd i ysgrifennu. Tystia nifer fawr o awduron i werth y cyrsiau hyn.**

**Fodd bynnag, hyd yn hyn cynhaliwyd bron y cyfan yng Nghymraeg. Mae perygl ein bod wedi esgeuluso'r De ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y prinder o nofelau sy'n cynnwys cefndir a thafodiaith y De.**

**Ymgais yw'r llythyr hwn i weld a oes galw am gwrs neu weithdy yn eich ardal chi. Os oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn cwrs o'r fath, a fuasent mor garedig â chysylltu â mi cyn gynted ag y bo modd?**

**Yn gywir iawn**
**Nan Griffiths**
**Swyddog Llenyddiaeth**
**Cyngor y Celfyddydau**
**Stryd yr Amgueddfa**
**Caerdydd CF1 3NX**

## Digwyddiadur

4 Rhagfyr - Clwb y Bont - Cwis

5 Rhagfyr - Clwb y Bont - U Thant

5 Rhagfyr - Capel Salem, Caerdydd - Côr Merched y Garth a Chôr Godre'r Garth

6 Rhagfyr - 10.30 a.m. - Tabernacl, yr Efail Isa - Oedfa Gymun - Y Parch Eirian Rees

9 Rhagfyr - Clwb y Bont - Cymdeithas Rieni Ysgol Pont-Siôn-Norton

13 Rhagfyr - 10.30 a.m. - Tabernacl, yr Efail Isa - Y Parch Gareth Watts

15 Rhagfyr (prynhawn) - Eglwys y Plwyf Llantrisant - Gwasanaeth Carolau Y.G.G. Llantrisant

16 Rhagfyr - Clwb y Bont - Parti Nadolig Dysgwyr Llwyncelyn - £1.50 - Disgo Howard

16 Rhagfyr - Parti Teulu Twm

18 Rhagfyr - Clwb y Bont - Parti Nadolig y Clwb

18 Rhagfyr - Parti Nadolig plant Tabernacl, yr E. I.

19 Rhagfyr (prynhawn) - Clwb y Bont - Parti Nadolig y plant

20 Rhagfyr - 10.30 a.m. - Tabernacl. yr Efail Isa - Oedfa Nadolig y plant - 6.00 p.m. - Plygain

24 Rhagfyr - 11.30 p.m. - Cymdeithas Gymraeg Llantrisant - Gwasanaeth Plygain

24 Rhagfyr - Tabernacl. yr Efail Isa - 11.00 p.m. - Croesawu'r Nadolig (dwyieithog)

25 Rhagfyr - Clwb y Bont - Cadlan - £5

26 Rhagfyr - 7.30-11.00 - Clwb y Bont - Disco

27 Rhagfyr - 10.30 a.m. - Tabernacl, yr Efail Isa - Cyfarfod Cyflwyno Anrhegion

3 Ionawr - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Y Parch Eirian Rees - Oedfa Gymun

10 Ionawr - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Y Parch Eirian Rees

17 Ionawr - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Y Parch Emlyn Dole

24 Ionawr - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Addoliad ac Astudiaeth - Aelodau'r Creigiau

31 Ionawr - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Y Parch Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd

7 Chwefror - 10.30 a.m. - Tabernacl yr Efail Isa - Y Parch Eirian Rees - Oedfa Gymun

Gŵyl y Corau

O'r 28ain o Ragfyr bydd cyfres o raglenni o Bafflwn Corwen yn cael ei darlledu ar S4C. Ymysg y corau cymysg roedd Côr Pwllglas, Côr Rhuthun a Chôr Godre'r Garth. Bydd rhaid aros tan y Nos Sul canlynol am y feirniadaeth.

Erthyglau a straeon ar gyfer y rhifyn nesaf i gyrraedd erbyn 12 Ionawr 1988.

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040


ANRHEGION NADOLIG GAN SAIN

***"AR NOSON FEL HENO"***
14 o Garolau newydd sbon gan 14 o gantorion. Elw i Gronfa Plant Mewn Angen - £5.75

**Y CYRFF *"TESTAMENT NEWYDD"***
Record (12" + sengl am ddim) £3.99, Caset 6 chân £3.99

**JIM O'ROURKE *"Y BONT"***
gyda Donal Lunny, Davy Spillane a Terry Williams. Profiad unigryw am £5.75

**Y DYN SÂL *"OS BYDDA' I YMA YNDÊ"***
Phylip Hughes a pherlau claf 'Plu Chwithig' - £3.99

**TALON *"YR HANCES FELEN"***
Record sengl, a sain newydd, gwahanol - £1.99

**FRANK HENNESSY *"THOUGHTS AND MEMORIES"***
Casgliad o'i ganeuon gorau yn Saesneg - £5.75

**MASNACH RYDD/WENFFLAM**
4 cân yr un gan ddau o grwpiau mwyaf cyffrous y dydd - £3.99

sain
SAIN (RECORDIAU) CYF
Llandwrog Caernarfon Gwynedd LL54 5TG
Ffôn Llanwnda (0286) 831 111

# SYMUD SIOP GYMRAEG




**TAFLEN**

***LLYFRAU***
***RECORDIAU***
***CASETIAU***
***CARDIAU***

Agorwyd Siop Gymraeg newydd yng Nghaerdydd ar y 23ain o Dachwedd. Nid siop newydd mohoni ond hen siop ar ei newydd wedd.

Sefydlwyd TAFLEN i werthu llyfrau, recordiau a chardiau Cymraeg yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd, rhyw chwe mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn daeth yr amser i symud i ganol y ddinas. Mae'r safle newydd yn Arcade Duke Street, lle mae'n uno â Arcade High Street; canllath o'r castell, canllath o Heol y Frenhines a chanllath o Howells!

Bydd y siop yn gwerthu llyfrau, recordiau a chardiau Cymraeg a Chymreig fel ag o'r blaen. Yn ogystal bydd dewis o grefftau safonol unigryw l'w gael yno - Crochenwaith Molly Curley a Do Burgess, lluniau dyfriliw nodedig Mary Lloyd Jones, brodwaith cywrain Wendy Brown ac Ann Woods, Samplerl enwog Susan Smith, gwaith coed a gwydr. Mewn gair, anrheg arbennig i bob un o'r teulu.

Er mwyn rhoi'r siop ar dir ariannol diogel gwahoddwyd nifer o Gymry'r ardal i fuddsoddi yn y fenter, ond erys Canolfan yr Urdd fel y prif gyfranddaliwr.

# *JIW JIW JEIFIN JENKINS*

| | |
|---|---|
| Jeifin | Jeifin |
| Elvis Pritchard | Dewi Rhys |
| Tywysroc Rolant | Emyr Davies |
| Sindirola | Sian Rivers |
| Mama Cás | Sue Roderick |
| Bi-Bap | Dewi Morris |
| Lwla | Emyr Wyn |

Rhaglyr: Llun 7 Neuadd Bwrdeisiol Pontypridd 1.15/7.30
Mawrth 8 Neuadd Bwrdeisiol Pontypridd 10/1.15

Am wybodaeth pellach cysylltwch â Dafydd Hywel ar ☎ 0222/28541

# cystadleuaeth gwyl ddewi

# tafod elái

## 1988

Dan 6 oed

a) Tynnu llun "Mamgu" ac ysgrifennu brawddeg.
neu
b) Ysgrifennu am "Y Parti"

6 - 8 oed

a) Lluniо poster i hysbysebu eich hoff raglen deledu
neu
b) Ysgrifennu stori am "Y dewin drwg".

8 - 10 oed

a) Lluniо slaced lwch ar gyfer eich hoff lyfr.
neu
b) Ysgrifennu am "Y diwrnod pwysicaf yn fy mywyd".

10 - 12 oed

a) Lluniо cartŵn am ddigwyddiad doniol yn yr ysgol.
neu
b) Barddoniaeth
"Y deinasorlaid"
neu "Y canwr pop"

Dosbarth 1 a 2 Ysgolion Uwchradd

a) Lluniо clawr i dâp caset cân bop.
neu
b) Creu deialog rhwng William Morgan â rhywun o'r oes hon.

Rheolau

1 Rhaid i bob cystadleuydd fod yr oedran iawn.
2 Rhaid i bob cystadleuydd roi ei enw, oed a'i gyfeiriad.
3 Ni ddylai'r lluniau/cloriau/cartwnau/posteri fod yn fwy na phapur ffwlsgap.
4 Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd
NAWDD-DIR,
HEOL COEDPENMAEN
TRALLWNG
PONTYPRIDD

erbyn Dydd Sadwrn, 6 Chwefror 1988.

Ni dderbynir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad hwn!